Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwelliannau i Les Anifeiliaid wrth Gludo

## Crynodeb o ymatebion ac ymateb y Llywodraeth

Dyddiad: Mis 2021

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella ac amddiffyn yr amgylchedd, tyfu'r economi werdd a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota arobryn.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 asiantaeth a chyrff lled braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn fwy glân, ein tir yn fwy gwyrdd a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, ac i sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr gwell i'r dyfodol.


OGL

© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu dan Drwydded Agored y Llywodraeth f3.0. I weld y drwydded, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/



Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/government/publications



Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad i

defra.helpline@defra.gov.uk

# Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a Threfnydd

Mae lles anifeiliaid, gan gynnwys wrth gael eu cludo, yn flaenoriaeth fawr i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae gan Lywodraeth y DU ymrwymiad maniffesto i ddirwyn i ben teithiau hir iawn at ddibenion lladd a thewhau, yr ydym yn bwrw ymlaen ag ef drwy ein Bil Anifeiliaid a Gedwir. Nawr ein bod wedi gadael yr UE, mae gennym gyfle i edrych ar ddulliau amgen o amddiffyn lles anifeiliaid yn well wrth gael eu cludo.

Nododd adroddiad y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Ffarm (FAWC, sydd bellach yn cael ei alw'n y Pwyllgor Lles Anifeiliaid) yn 2019 lawer o agweddau ar gludo sy'n cael effaith andwyol ar les anifeiliaid. Gwnaethant gyflwyno cyfres o argymhellion ar y rheoliadau presennol ar les anifeiliaid wrth gludo. Cyhoeddwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r papur hwn yn 2020.

Yn dilyn canfyddiadau'r adroddiad hwn, rydym wedi ymchwilio i welliannau i les anifeiliaid wrth gludo, gan gynnwys uchafswm amseroedd teithio, amodau thermol ac awyriad, lwfansau gofod a lle uwch ben a chludo ar y môr. Derbyniwyd ystod eang o farn ac ymateb i'n hymgynghoriad. Rydym wedi gwrando ar y farn honno, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant, cyrff anllywodraethol ac eraill i adnabod blaenoriaethau lle mae'r dystiolaeth yn amlwg, ac mewn achosion eraill, ymchwilio rhai o'r materion a'r dystiolaeth yn fanylach. Rwyf am i ni gydweithio i ddatblygu datrysiadau ymarferol sy'n creu deilliannau lles da, yr ydym i gyd yn awyddus i'w gweld.

Mae'n gam mawr, ond os yw'r dystiolaeth yn amlwg, mae'n rhaid i ni weithredu. Hoffwn gydweithio gyda'r diwydiant i gyd-ddylunio datrysiadau fydd yn cyflawni deilliannau lles o'r radd flaenaf, a'u helpu nhw i weithredu'r newidiadau hyn.

**The Rt Hon George Eustice MP**
**Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs**

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

# Rhan 1: Crynodeb o ymatebion

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad a gafodd ei gyflwyno ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru[1], ar welliannau i les anifeiliaid mewn trafnidiaeth. Dadansoddodd Defra'r ymatebion. Mae'r crynodeb hwn wedi'i gyflwyno ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar y cynnig i ddirwyn i ben y broses o allforio byw da a cheffylau[2] o Gymru a Lloegr i gael eu lladd a'u tewhau.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn ar gynigion i wella cyflwr trafnidiaeth anifeiliaid yn fwy cyffredinol. I grynhoi, gwnaethom wahodd barn ar y newidiadau arfaethedig canlynol i bolisi lles anifeiliaid:

- Allforio anifeiliaid byw: Cynigiodd y llywodraeth i ddirwyn i ben allforio byw da a cheffylau ar gyfer eu lladd a'u tewhau, waeth os yw'n golygu teithio o neu drwy Gymru a Lloegr.
- Uchafswm amseroedd teithio: Cynigiodd y llywodraeth i leihau uchafswm amseroedd teithio ar gyfer pob siwrne.
- Amodau tymheredd ac awyru: Cynigiodd y llywodraeth i gynnwys gofynion mwy llym ar gyfer pob taith yn ystod tymereddau allanol eithafol.
- Uchder lle uwch ben: Cynigiodd y llywodraeth i weithredu gofynion uchder lle uwch ben ar gyfer bob taith byw da a cheffylau.
- Cludo ar y môr: Cynigiodd y llywodraeth gyfyngu ar bob siwrne ar y môr yn ystod Grym Gwynt Beaufort o leiaf 6.
- Teithiau byr a hir: Gwnaethom gynnig y dylai'r holl ofynion newydd fod yn berthnasol i deithiau byr a hir, ond nid teithiau'n fyrrach na 65 km, megis symudiadau lleol o fferm i fferm. Ni wnaethom gynnig unrhyw newidiadau i ddiffiniadau teithiau presennol: diffinnir teithiau byr fel rhai dros 65km a hyd at, a chan gynnwys, wyth awr o hyd; a diffinnir teithiau hir fel unrhyw daith sy'n fwy nag wyth awr o ran hyd.
- Eithriadau: Bydd dim eithriadau i'r cynigion i ddirwyn i ben allforio anifeiliaid by war gyfer lladd a thewhau. Fodd bynnag, roedd y llywodraeth yn awyddus i gasglu barn ar eithriadau posibl i'r newidiadau arfaethedig eraill i'r rheoliadau, os oes digon o amddiffyniadau lles ar waith.
- Roedd y llywodraeth hefyd yn ceisio barn ar wneud lwfansau gofod i anifeiliaid yn seiliedig ar egwyddorion alometrig.

---

[1] O hyn ymlaen, cyfeirir at lywodraeth y DU a llywodraeth Cymru fel 'y llywodraeth' oni bai y nodir fel arall.

[2] Defnyddir y term 'ceffylau' drwy gydol y ddogfen i gyfeirio at bob anifail ceffylaidd.

Roedd yr ymgynghoriad ar waith am 12 wythnos, o 3 Rhagfyr 2020 i 25 Chwefror 2021.

## Nifer yr ymatebion

Derbyniwyd cyfanswm o 11,395 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- 3,766 o ymatebion unigol
- 7,629 o ymatebion i'r ymgyrch

Roedd yr ymatebion unigol yn cynnwys:

- 3,507 o ymatebion drwy'r holiadur ar-lein ar Citizen Space.
- 259 o ymatebion dros e-bost a drwy'r post.

Roedd ymatebion i'r ymgyrch yn cynnwys yr hyn a ganlyn. Gweler y manylion yn y blwch isod:

- 7,445 o ymatebion yr un peth gan gefnogwyr yr RSPCA (7,358 wedi'u hanfon dros e-bost ac 87 drwy'r holiadur ar-lein).
- 184 o ymatebion yr un peth gan gefnogwyr Animal Aid (20 wedi'u hanfon dros e-bost ac 164 drwy'r holiadur ar-lein).
- 1 ymateb deiseb gan gefnogwyr Compassion in World Farming oedd yn cynnwys 111,295 llofnod.

**Ymatebion i ymgyrch RSPCA – 7,445 o ymatebion**

Roedd yr ymateb i ymgyrch RSPCA yn mynd i'r afael â chwestiynau 1-3 ynghylch allforio anifeiliaid byw, cwestiwn 6 yn ymwneud ag uchafswm amseroedd teithio a chwestiwn 28 ynghylch eithriadau i'r cynigion.

Roedd yr ymateb yn nodi bod teithiau allforio anifeiliaid byw hir yn achosi materion lles gan gynnwys blinder, anafiadau, llwgu, dadhydriad a straen gwres. Roedd hefyd yn mynegi pryder y gallai anifeiliaid gael eu cadw a'u lladd gan ddefnyddio dulliau sy'n anghyfreithlon yn y DU ar ôl cael eu hallforio.

Roedd yr ymateb yn nodi y dylid gwahardd allforio anifeiliaid ar gyfer eu tewhau, waeth beth oedd y cyfnod amser rhwng cyrraedd a chael eu lladd.

Roedd yr ymateb yn cytuno y dylid sicrhau eithriad ar gyfer teithiau allforio anifeiliaid magu, ond nid ar gyfer allforio dofednod byw.

O ran uchafswm yr amseroedd teithio, roedd yr ymateb yn nodi y dylid cadw'r rhain i leiafswm, a chyfeiriodd at safonau lles uwch penodol i rywogaethau'r RSPCA.

Y sylwad olaf oedd na ddylai fod unrhyw eithriadau i'r cynigion.

**Ymateb i ymgyrch Animal Aid – 184 o ymatebion**

Roedd ymateb i ymgyrch Animal Aid yn mynd i’r afael ag 20 allan o 30 o gwestiynau’r ymgynghoriad.

Roedd yr ymateb yn nodi y dylid gwahardd yn llwyr allforio byw, heb unrhyw eithriadau.

Roedd yr ymateb yn nodi na ddylid cludo anifeiliaid o gwbl, ond os oes rhaid, 8 awr ddylai’r uchafswm amser teithio fod, a dylid caniatáu eithriadau i hynny ar gyfer amseroedd teithio byrrach yn unig ar gyfer anifeiliaid penodol, yn dibynnu ar oedran, rhywogaethau a ffactorau eraill.

Roedd yr ymateb yn croesawu mesurau i sicrhau nad yw anifeiliaid yn cael eu cludo y tu allan i derfynau tymheredd diogel wedi’u diffinio. Fodd bynnag, roedd yn nodi y dylid ystyried hefyd y tymheredd y bydd anifeiliaid yn ei brofi yn ystod y daith.

Ar y cyfan, roedd yr ymgyrch yn cefnogi’r cynigion ar gyfer lwfansau gofod yn dilyn egwyddorion alometrig, ond roedd yn mynegi pryder bod y gofynion lle uwch ben penodol i rywogaethau’n annigonol.

Ynghylch amodau teithio dros y môr, yn yr un modd â’r farn ar gynigion yn ymwneud ag ystod tymheredd, roedd yr ymateb yn nodi bod angen pwyslais clir ar yr amodau tebygol yn ystod taith yn hytrach na’r amodau ar ddechrau’r daith.

**Ymateb deiseb Compassion in World Farming - 111,295 o lofnodion**

Roedd ymateb deiseb cefnogwyr Compassion in World Farming yn galw ar Lywodraeth y DU i wahardd allforio anifeiliaid byw ar gyfer lladd neu dewhau.

Gwnaeth nifer o sefydliadau eraill, megis Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr annog eu cefnogwyr i ymateb i’r ymgynghoriad, un ai drwy’r arolwg ar-lein ar Citizen Space neu drwy ymateb dros e-bost. Roedd yr ymatebion hyn yn sylweddol bersonol gan ymatebwyr unigol, felly maent wedi cael eu hasesu’n unigol.

Lle roedd ymatebwyr wedi ateb cwestiynau penodol yr ymgynghoriad, mae’r rhain wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau a nodwyd drwy gydol y ddogfen hon. Lle roedd ymatebwyr wedi nodi sylwadau mwy cyffredinol, mae eu barn wedi cael ei hadlewyrchu yn y dadansoddiad ehangach a thrwy nodi themâu allweddol o’r holl sylwadau.

## Demograffeg

Ymysg yr ymatebion unigol, gwnaethom dderbyn niferoedd eithaf cyfartal o ymatebion gan y cyhoedd, gyda 1,709 o ymatebion, a ffermwyr, gyda 1,696 o ymatebion. Y sectorau gyda'r gynrychiolaeth fwyaf wedi hynny oedd cludwyr gyda 51 o ymatebion, cyrff diwydiant ac aelodaeth gyda 50 o ymatebion, a sefydliadau nad ydynt yn rhai'r llywodraeth gyda 33 o ymatebion. Ymhlith yr ymatebwyr eraill oedd arwerthwyr a marchnadoedd byw da, cynhyrchwyr bwyd a lladd-dai, milfeddygon ac ymchwilwyr gwyddonol.

## Ffigurau pennawd

- Cytunodd 87% o'r ymatebwyr (yr oedd 69% o'r rheiny'n ymatebion ymgyrch RSPCA) bod teithiau allforio byw da a cheffylau ar gyfer eu lladd a'u tewhau yn ddiangen.
- Gwnaethom dderbyn ymatebion gwahanol iawn i'r cynigion ar uchafswm amseroedd teithio, gydag ymatebwyr y diwydiant ffermio'n mynegi pryderon na fyddai modd i deithiau presennol gael eu cynnal yn yr amseroedd a gynigwyd, a sefydliadau lles anifeiliaid yn cynnig uchafswm amseroedd teithiau byrrach. Ar y cyfan, roedd 5% o'r ymatebwyr yn cytuno ar yr amseroedd arfaethedig. Mae'r canlyniadau'n cynnwys ymateb ymgyrch RSPCA.
- Cytunodd 55% o'r ymatebwyr y dylid gwahardd teithiau hir a byr i ddofednod gyda thymheredd allanol y tu hwnt i 5-25ºC, oni bai bod thermoreoleiddio ar waith.
- Roedd ymatebion i'r cynnig y dylid gwahardd teithiau byw da gyda thymheredd allanol y tu hwnt i 5-30ºC oni bai bod thermoreoleiddio ar waith yn dod o safbwyntiau gwahanol. Roedd cynrychiolwyr o'r diwydiant yn credu bod yr ystod yn cyfyngu'n ormodol, tra bod llawer o sefydliadau lles anifeiliaid yn cynnig ystodau mwy llym neu benodol i rywogaethau. Roedd 36% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynnig.
- Roedd 37% o'r ymatebwyr cyffredinol yn cytuno y dylid defnyddio egwyddorion alometrig i gyfrifo lwfansau gofod, er bod cefnogaeth helaeth ledled diwydiant a grwpiau lles ar gyfer y cysyniad hwnnw.
- Cafodd safbwyntiau amrywiol eu mynegi ynghylch y gofynion lle uwch ben penodol i rywogaeth arfaethedig. Roedd y rhan fwyaf o'r ffermwyr a chludwyr yn credu bod y cynigion yn anymarferol. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r sefydliadau lles anifeiliaid yn credu bod y lwfansau arfaethedig yn annigonol. Roedd 39% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynigion.
- Cytunodd 74% o'r ymatebwyr y dylai anifeiliaid gael eu hatal rhag cael eu cludo ar y môr mewn tywydd garw, a chytunodd 67% na ddylent gael eu cludo mewn Gwynt Grym Beaufort o leiaf 6.
- Roedd 5% o'r ymatebwyr o'r farn y dylid sicrhau bod eithriadau i'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn.

# Ymatebion yn ôl Cwestiynau

## Allforio Anifeiliaid Byw

**C1: Ydych chi'n cytuno bod teithiau allforio byw da a cheffylau ar gyfer eu lladd a'u tewhau'n ddiangen?**

Roedd 87%[3] o'r ymatebwyr yn cytuno bod teithiau allforio byw da a cheffylau ar gyfer eu lladd a'u tewhau'n ddiangen. Roedd 11%[4] yn anghytuno, ac ni roddodd 2% farn benodol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr oedd yn cytuno bod teithiau o'r fath yn ddiangen yn aelodau'r cyhoedd a grwpiau lles anifeiliaid. Y prif reswm a roddodd ymatebwyr dros gytuno oedd eu bod yn bryderus am safonau lles wrth gludo anifeiliaid byw. Nododd llawer o'r ymatebwyr unigol a sefydliadau lles anifeiliaid bod allforio anifeiliaid byw yn greulon ac yn diraddio'r anifeiliaid ynghlwm.

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr y dylai anifeiliaid gael eu lladd mewn lladd-dai lleol yn hytrach na theithio pellteroedd hir.

Roedd nifer fawr o ymatebwyr hefyd yn dadlau dros ladd anifeiliaid cyn iddynt gael eu hallforio oherwydd, yn eu barn nhw, byddai hyn yn fwy cost-effeithiol, yn fwy trugarog, a hefyd byddai modd cludo mwy o anifeiliaid marw mewn ffordd amgylcheddol gyfeillgar o bosibl, o gymharu ag anifeiliaid byw.

Nododd llawer o ymatebwyr bod cyfle amlwg i newid y ddeddfwriaeth yn dilyn y DU yn gadael yr UE, a sicrhau gwelliannau sylweddol i les anifeiliaid mewn trafnidiaeth.

Roedd yr ymatebwyr oedd yn anghytuno bod teithiau allforio byw da a cheffylau ar gyfer eu lladd a'u tewhau'n ddiangen yn bennaf yn cynnwys ffermwyr, cyrff aelodaeth, cludwyr anifeiliaid, proseswyr cig a chynrychiolwyr eraill o'r diwydiant. Y prif reswm dros anghytuno oedd safonau lles anifeiliaid, gan eu bod o'r farn fod gan y DU safonau trafnidiaeth gorau'r byd eisoes.

Yr ail reswm mwyaf poblogaidd dros anghytuno oedd diffyg lladd-dai lleol. Nododd llawer o ymatebwyr bod pwysau gan fanwerthwyr mawr wedi arwain at gau llawer o ladd-dai lleol bychan ledled y DU, gyda dim ond ychydig o ladd-dai mawr ar ôl, sy'n golygu amseroedd

[3] Manylion sector o ran yr 87% oedd yn cytuno: roedd 79% yn ymatebwyr ymgyrch RSPCA, roedd 15% yn aelodau eraill o'r cyhoedd, roedd 5% yn ffermwyr a llai na 1% yn cynnwys sefydliadau nad ydynt yn rhai'r llywodraeth, cludwyr, milfeddygon a diwydiant.

[4] Manylion sector o ran yr 11% oedd yn anghytuno: roedd 78% yn ffermwyr, 17% yn aelodau'r cyhoedd, 2% yn aelodau'r diwydiant, 2% yn gludwyr a llai na 1% yn filfeddygon.

teithio gormodol. Y farn oedd bod lladd-dai yn Ffrainc ac yng Ngwlad Bel gyn aml yn gynt i'w cyrraedd, ac yn nes na lladd-dai yn y DU.

Er bod yr ymgynghoriad hwn wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, derbyniwyd ymatebion o bob rhan o'r DU. Nododd ymatebwyr yn byw yn Ynysoedd yr Alban nad oes ganddynt unrhyw ladd-dai lleol, ac felly does dim dewis heblaw cludo anifeiliaid am bellteroedd hir. Codwyd pryderon ynghylch effeithiau'r cynigion ar deithiau i ac o Ynysoedd yr Alban mewn ymateb i nifer o gynigion yn yr ymgynghoriad.

Cododd sawl ffarmwr a chludwr y pwynt bod de Lloegr yn agos iawn i'r cyfandir, a chyda seilwaith trafnidiaeth gwell a safonau lles uchel ar loris, ni ddylai mordaith fer fod yn waharddol.

Nododd rhai o ymatebwyr o'r diwydiant byw da y byddai gwahardd allforio'n llwyr ar gyfer lladd a thewhau'n dileu cystadleuaeth hanfodol o'r farchnad, gan arwain at brisiau is. Byddai hyn yn ei dro'n effeithio ar eu costau a'u proffidioldeb.

**C2. Ydych chi'n cytuno er mwyn gwahardd teithiau allforio byw da a cheffylau ar gyfer tewhau'r anifail fydd yn cael ei ladd yn fuan ar ôl cyrraedd, y dylid gwahardd teithiau allforio lle mae anifeiliaid yn cael eu lladd o fewn 6 mis o gyrraedd?**

Er nad oedd 85%[5] o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r gwaharddiad ar deithio allforio at ddibenion tewhau fod yn berthnasol i deithiau lle bydd yr anifail yn cael ei ladd o fewn 6 mis o gyrraedd, nid oedd y rhan fwyaf yn anghytuno gyda gwahardd teithiau allforio at ddibenion tewhau, ond yn hytrach yn anghytuno gyda'r terfyn amser o 6 mis a gynigiwyd. Roedd y rhain yn cynnwys ffermwyr, aelodau'r cyhoedd a grwpiau lles anifeiliaid. O'r rhain, roedd rhai'n dadlau dros gyfnod amser byrrach, a rhai'n dadlau dros gyfnod hirach.

Y prif reswm yr oedd aelodau'r cyhoedd a grwpiau lles anifeiliaid yn anghytuno oedd oherwydd pryderon ynghylch safonau lles. Roedd ymatebwyr ymgyrch RSPCA ymysg y rhai oedd yn anghytuno, gan nodi y dylid gwahardd allforio anifeiliaid er mwyn eu tewhau, waeth beth fo'r cyfnod amser rhwng cyrraedd a chael eu lladd.

Dywedodd llawer o aelodau'r cyhoedd a'r sefydliadau lles anifeiliaid oedd yn anghytuno oherwydd lles nad oedd terfyn amser o 6 mis yn ddigonol i sicrhau nad oedd anifeiliaid yn cael eu hallforio'n ddiangen er mwyn cael eu lladd. Roedd llawer yn awgrymu terfynau amser hirach - a'r awgrym hiraf oedd 3 blynedd.

Roedd ffermwyr oedd yn anghytuno yn erbyn y terfyn amser o 6 mis, ac yn erbyn y gwaharddiad yn gyffredinol. Nododd llawer o'r ffermwyr oedd yn anghytuno gyda'r cynnig

[5] Manylion y sector o ran yr 85% oedd yn anghytuno: roedd 82% yn ymatebwyr ymgyrch RSPCA, 10% yn ffermwyr, 7% yn aelodau eraill o'r cyhoedd a llai na 1% yn cynnwys sefydliadau anllywodraethol, cludwyr, milfeddygon a'r diwydiant.

nad yw'n cymryd hyd at 6 mis i dewhau byw da i raddau digonol. Er enghraifft, mae'r terfyn amser hwn bron yr un peth â chyfnod bywyd rhai byw da, megis ŵyn. Roeddent yn dadlau y dylid dileu'r terfyn amser yn gyfan gwbl, neu ei leihau'n sylweddol. Ymhlith y terfynau amser byrrach a nodwyd oedd 1 i 4 mis.

Nododd llawer o'r ymatebwyr oedd yn anghytuno y byddai unrhyw derfyn amser yn amhosibl i'w orfodi, gan y byddai'n amhosibl gwybod a oedd yr anifeiliaid wedi cael eu lladd cyn i'r 6 mis o dewhau fynd heibio. Nodwyd unwaith y mae anifail wedi cael ei allforio allan o'r DU, does dim ffordd o fonitro na gorfodi safonau lles anifeiliaid.

Roedd llawer o aelodau'r cyhoedd a sefydliadau lles anifeiliaid yn awyddus i weld gwaharddiad llwyr ar allforio anifeiliaid byw. Nododd llawer ohonynt fod siwrneiau o'r fath yn greulon tu hwnt, ac os oes rhaid allforio anifeiliaid, dylai hynny ddigwydd '*ar fachyn ac nid ar garnau*'.

Roedd 10%[6] yn cytuno gyda'r cynnig, a ni wnaeth 5% fynegi barn gref. Roedd y rhan fwyaf o bobl oedd yn cytuno'n aelodau'r cyhoedd. Wedi dweud hynny, roedd llawer o ffermwyr a grwpiau eraill oedd â buddiant economaidd mewn allforio byw hefyd yn cytuno, gan gynnwys cludwyr.

**C3. Ydych chi'n cytuno mai'r unig eithriadau i wahardd teithiau allforio anifeiliaid byw ddylai fod ar gyfer allforio dofednod byw, ac anifeiliaid at ddibenion bridio neu gynhyrchu, na fydd yn cael eu lladd o fewn 6 mis o gyrraedd?**

Roedd ymatebwyr oedd yn anghytuno gyda'r cwestiwn hwn[7] yn anghytuno am resymau gwahanol: nododd 44% y dylai'r eithriadau fod ar gyfer anifeiliaid bridio'n unig; nid oedd 46% eisiau eithriadau ar gyfer dofednod; roedd 2% eisiau caniatau pob math o allforio, tra bod 3% eisiau gwahardd allforio byw'n llwyr. Roedd y nifer fawr o ymatebion unfath o'r ymgyrch RSPCA yn cyfrannu at y ffigurau hyn.

Roedd 6%[8] o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynnig, ac ni wnaeth 7% fynegi barn gref. Roedd y rhai oedd yn cytuno ar y cyfan yn cynnwys ffermwyr, cludwyr a chynrychiolwyr diwydiant. Roedd y rhai oedd yn cefnogi'r eithriad oherwydd dibenion bridio'n nodi bod anifeiliaid o'r fath yn debygol o fod yn fwy gwerthfawr, ac felly'n cael eu trin yn well wrth gael eu cludo.

---

[6] Manylion y sector o ran y 10% wnaeth gytuno: roedd 64% yn aelodau'r cyhoedd a 31% yn ffermwyr. Roedd sefydliadau anllywodraethol, cludwyr, milfeddygon a chynrychiolwyr y diwydiant yn cynrychioli'r 5% oedd yn weddill.

[7] Manylion y sector o ran yr 87% oedd yn anghytuno: roedd 80% yn ymatebwyr ymgyrch RSPCA, 11% yn aelodau eraill o'r cyhoedd, 8% yn ffermwyr ac roedd llai nag 1% yn cynnwys sefydliadau anllywodraethol, cludwyr, milfeddygon a'r diwydiant.

[8] Manylion y sector o ran y 6% wnaeth gytuno: roedd 57% yn ffermwyr a 35% yn aelodau'r cyhoedd. Roedd sefydliadau anllywodraethol, cludwyr, milfeddygon a'r diwydiant yn cynrychioli'r 8% oedd yn weddill.

Dywedodd rhai ymatebwyr bod allforio byw at ddibenion bridio hefyd yn helpu gwledydd eraill i wella ansawdd genetig eu stoc.

Roedd nifer fawr o'r ymatebwyr, gan gynnwys yr ymgyrch RSPCA mawr, yn gefnogol o eithriad ar gyfer anifeiliaid bridio, ond yn erbyn yr eithriad o ran allforio dofednod byw. Fodd bynnag, ni wnaeth ymatebwyr yr ymgyrch amlygu pryderon lles penodol gydag allforio dofednod o Brydain Fawr. Bu i ymatebwyr ymgyrch Animal Aid godi pryderon ynghylch derbynnedd cywion ifanc ac ieir dodwy i amodau amgylcheddol newidiol. Nododd feirniaid eraill bod dofednod yn ymdeimladol ac y dylid eu trin yr un ffordd ag anifeiliaid eraill.

Roedd CIWF yn credu mai anifeiliaid bridio a dofednod ddylai fod yr unig eithriadau, ond nododd yn benodol y dylai'r eithriad dofednod ond fod yn berthnasol i gywion sydd newydd gael eu geni. Roedden nhw'n dweud y dylid lleihau'r terfyn amser o ran cyrraedd o'r 72 awr ar ôl cael eu geni fel ag y mae ar hyn o bryd, i 48 awr. Roedd ymateb sefydliad yr RSPCA hefyd yn cydnabod bod allforio cywion bridio'n angenrheidiol. Roedd y ddau sefydliad yn galw am reoleiddio gwell o'r fasnach allforio ac ymchwil pellach i'r effeithiau lles i sicrhau amodau gwell i'r anifeiliaid.

**C4: Beth fyddai'r effaith ariannol ar eich busnes neu sefydliad o beidio â gallu allforio byw da neu geffylau er mwyn eu lladd neu eu tewhau mwyach?**

Dywedodd 39% o'r ymatebwyr nad oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol iddyn nhw; roedd y grŵp hwn yn bennaf yn cynnwys aelodau'r cyhoedd a grwpiau lles anifeiliaid oedd heb fuddiant ariannol mewn allforio byw.

Dywedodd 23% o'r ymatebwyr na fyddai gwahardd allforio byw'n cael effaith ariannol arnyn nhw; roedd y grŵp hwn yn bennaf yn cynnwys ffermwyr nad oedd yn allforio eu byw da neu geffylau er mwyn eu lladd neu eu tewhau.

Dywedodd 22% o'r ymatebwyr y byddant yn gweld effaith ariannol sylweddol yn sgîl y cynnig; roedd y grŵp hwn yn bennaf yn cynnwys ffermwyr, cludwyr, cyrff aelodaeth a chynrychiolwyr y diwydiant. Nododd llawer ohonynt eto bod cau lladd-dai bychan ledled y wlad yn golygu mai croesi ffin yw'r daith gyflymaf weithiau, a'r opsiwn gorau ar gyfer lles yr anifail. Nododd rhai ymatebwyr y byddai gwahardd allforio byw'n dileu cystadleuaeth o'r farchnad, gan arwain at brisiau is i'r prif gynhyrchwr.

Dywedodd 2% o'r ymatebwyr na fyddai'r effaith ariannol yn sylweddol; roedd y grŵp hwn yn bennaf yn cynnwys ffermwyr nad oeddent yn allforio eu byw da neu geffylau. Roedd rhai'n poeni am yr effaith anuniongyrchol o ran y rhai sydd eisoes yn allforio'n cael eu gorfodi i werthu i'r farchnad ddomestig, gan y gallai hyn ddibrisio'r farchnad o bosibl.

Rhannodd 22% o'r ymatebwyr wybodaeth am raddfa'r effaith ariannol y byddai gwahardd allforio byw'n ei gael ar eu busnes. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o'u sylwadau'n fesuradwy gan na roddwyd unrhyw ffigurau gwaelodlin.

**C5: Pa opsiynau amgen fyddai eich busnes neu'ch sefydliad yn ymchwilio os na fyddech chi'n gallu allforio byw da neu geffylau er mwyn eu lladd neu dewhau?**

Dywedodd 62% o’r ymatebwyr nad oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol iddyn nhw. Roedd y grŵp hwn yn bennaf yn cynnwys ffermwyr nad oeddent yn allforio byw da neu geffylau.

Dywedodd 19% o’r ymatebwyr nad oedd unrhyw opsiynau amgen y gallant eu hymchwilio mewn achos gwahardd allforio byw. Roedd y grŵp hwn yn bennaf yn cynnwys ffermwyr a chludwyr. Nododd yr ymatebwyr y bydden nhw’n dibynnu mwy ar fasnach ddomestig, yr oedden nhw’n credu oedd eisoes dan bwysau ac yn gyfyngedig o ran swm y stoc y gallai’r farchnad ddelio ag ef. Dywedodd llawer y byddai eu busnes dan fygythiad pe byddai gwaharddiad ar allforio byw.

Ni wnaeth 19% o’r ymatebwyr fynegi barn gref.

## Uchafswm yr Amseroedd Teithio

**C6: Ydych chi’n cytuno gyda’r uchafswm amseroedd teithio fel y’i nodwyd yn Nhabl 1? Eglurwch eich barn ac amlygwch unrhyw effeithiau rhanbarthol posibl allai eich busnes neu sefydliad eu profi.**

**C7: Ydych chi’n credu fod angen unrhyw eithriadau i’r uchafswm amseroedd teithio, ac os felly, pam? Rhowch dystiolaeth.**

**C8: Yn achos eithriadau o’r fath, pa ofynion ddylai gael eu rhoi ar waith i sicrhau bod lles anifeiliaid yn cael ei amddiffyn?**

**C9: Beth fyddai’r effaith ariannol i’ch busnes neu sefydliad oherwydd uchafswm amseroedd teithio’n cael ei weithredu? Nodwch unrhyw effeithiau perthnasol.**

**C10: Gan gynnwys llwytho, dadlwytho ac amser aros, pa mor hir yw’ch taith gyfartalog ar gyfer y byw da, dofednod neu geffylau y mae eich busnes neu sefydliad yn eu rheoli?**

**C11: Ydych chi’n cytuno na ddylai taith newydd ddechrau tan o leiaf 48 awr ar ôl y daith flaenorol? Eglurwch eich barn.**

**C12: Ydych chi’n cytuno y dylai fod cyfnod gorffwys o leiaf 7 diwrnod i wartheg? Eglurwch eich barn.**

Gwnaethom dderbyn ymatebion gwahanol i’r uchafswm amseroedd teithio a gynigiwyd, gydag ymatebwyr un ai’n credu bod amseroedd teithio’n rhy fyr neu’n rhy hir.

Roedd yr ymatebion o’r ymgyrch RSPCA yn nodi y dylid sicrhau bod yr amseroedd teithio’n cael eu cadw i leiafswm, gan awgrymu uchafswm o 8 awr i bob rhywogaeth oni bai am ieir brwylio, a gafodd uchafswm o 4 awr. Gwnaeth rhai sefydliadau lles anifeiliaid gynnig uchafswm amseroedd teithio byrrach ar gyfer rhywogaethau penodol, gan gynnwys moch, lloi, defais a chywion oedd newydd gael eu geni. O’r ymatebion eraill oedd yn anghytuno gyda’r cynnig, roedd 46% yn ffermwyr a 50% yn aelodau’r cyhoedd. Roedd llawer o gynrychiolwyr o’r diwydiant ffermio’n bryderus na fyddai teithiau presennol yn gallu cael digwydd o fewn yr amseroedd arfaethedig.

Roedd 5% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynigion, a'r rhan fwyaf o'r rhain yn ffermwyr ac aelodau'r cyhoedd. Bu i rai sefydliadau lles anifeiliaid, cyrff safonau bwyd a grwpiau lles ceffylau gefnogi'r cynigion o ran uchafswm amseroedd teithio.

Nododd 27% o'r ymatebwyr y byddai'r cynigion yn cael effaith ariannol sylweddol ar eu busnes neu sefydliad, a 77% o'r rhain yn ffermwyr. Nododd 18% na fyddai effaith ariannol neu effaith amherthnasol, a dywedodd 55% nad oedd yr effeithiau'n hysbys, neu bod dim modd eu cyfrifo.

Roedd 47% o'r ymatebwyr yn credu y dylid ystyried eithriadau i'r uchafswm amseroedd teithio; roedd y grŵp hwn yn bennaf yn cynnwys ffermwyr ac aelodau eraill o'r diwydiant. Awgrymodd yr ymatebwyr y dylai rhesymau priodol dros eithriadau gynnwys: cyfyngiadau daearyddol (e.e. Ynysoedd yr Alban), achosion traffig, tywydd garw, cau lladd-dai'n barhaol neu faterion capasiti. Nid oedd 53% o'r ymatebwyr yn meddwl bod angen eithriadau, gan gynnwys cyfran helaeth o aelodau'r cyhoedd a llawer o'r sefydliadau lles anifeiliaid wnaeth ymateb.

Lle caniateir eithriadau, roedd llawer o ymatebwyr o'r diwydiant yn credu bod y gofynion presennol yn amddiffyn lles anifeiliaid yn ddigonol. Awgrymodd sefydliadau lles anifeiliaid y dylid rhoi'r gofynion canlynol ar waith lle caniateir eithriadau: archwiliadau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio, gwybodaeth tracio anifeiliaid yn cael ei rhannu gydol y daith (megis tagiau electronig), bod pob siwrne eithriadol yn cael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), CCTV ar gerbydau, dylai gwybodaeth am eithriadau fod ar gael i'r cyhoedd, a chynlluniau wrth gefn wedi'u cytuno ymlaen llaw i ddiogelu lles.

Mewn ymateb i'r cynnig y dylai o leiaf 48 awr basio ar ôl taith cyn dechrau ar daith arall, roedd 77% yn anghytuno; ac roedd 76% yn anghytuno gyda'r cynnig am gyfnod gorffwys o leiaf 7 diwrnod rhwng teithiau ar gyfer gwartheg. Roedd barn wahanol ar y ddau gwestiwn hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r diwydiant ffermio'n anghytuno gyda'r ddau gynnig, gan nodi diffyg tystiolaeth ac anymarferoldeb. Roedd llawer o sefydliadau lles anifeiliaid ac aelodau'r cyhoedd yn anghytuno gyda'r syniad o gyfnod gorffwys, gan y gallai hyn olygu bod modd ailadrodd cylchoedd teithio am gyfnod penagored, gan gyfaddawdu lles anifeiliaid. Nododd rhai o bobl os nad oes modd i'r anifeiliaid gyrraedd eu cyrchfan yn yr uchafswm amser teithio, ni ddylid eu cludo o gwbl. Cynigiodd rai eraill amseroedd gorffwys hirach o 7 - 30 diwrnod.

**Ieir brwylio**: Roedd cynrychiolwyr o'r diwydiant yn amcangyfrif na fyddai hanner y teithiau brwylio'n cael eu caniatau dan yr amseroedd teithio arfaethedig o 4 awr, gan leihau'r cyfraniad hwn at yr economi'n sylweddol. Roedd busnesau dofednod yn amcangyfrif bod teithiau cyfartalog presennol ar gyfer ieir brwylio o dan 12 awr. Dywedon nhw fod y broses o ddal, llwytho a dadlwytho adar yn gallu cymryd hyd at ddwywawr, a bod gweddill yr amser a ganiateir yn annigonol ar gyfer teithio. Ymhlith y pryderon eraill oedd y ffaith y gallai amseroedd teithio byrrach arwain at bwysau gormodol a risgiau diogelwch cynyddol i'r staff sy'n gyfrifol am gludo.

Roedd sefydliadau lles anifeiliaid o blaid yr uchafswm amseroedd teithio a gynigiwyd i ieir brwylio. Gwnaethant nodi bod ymchwil yn dangos bod marwoldeb ar gyfer ieir brwylio'n cynyddu gyda hyd y daith, gyda graddfeydd marwolaeth uwch ar deithiau hirach na 4 awr. Roedd un grŵp oedd o blaid yn nodi bod yr amser arfaethedig ond yn dderbyniol os oedd cerbydau cludo a chratiau a ddefnyddir yn bodloni safonau uchel penodol.

**Cywion newydd:** Roedd sefydliadau lles anifeiliaid yn bennaf yn erbyn y cynigion ar gyfer uchafswm amseroedd teithio o ran cywion oedd wedi cael eu geni o fewn 21 awr. Cynigiodd rhai y dylai'r uchafswm amser teithio o 4 awr ar gyfer ieir brwylio fod yn berthnasol i'r holl ddofednod. Roedd eraill yn cynnig amser byrrach o 16 awr yn unol ag ymchwil, oedd yn nodi gwaethygiad mewn melynwy ac wedi gwaethygu ymatebion ffisiolegol yn ymwneud â straen wedi'r cyfnod hwn. Rhoddodd grwpiau lles anifeiliaid dystiolaeth bod hyd y daith ac amser o ddeor i gyrraedd yn ffactorau risg allweddol o ran lles y cywion. Awgryma tystiolaeth bod effeithiau andwyol ar dwf a datblygiad y cywion os nad yw porthiant a dŵr yn cael eu cynnig wrth i'r melynwy waethygu.

Roedd busnesau dofednod yn anghytuno gyda'r cynnig, gan amcangyfrif y byddai'n effeithio ar 70-75% o deithiau, gan achosi effaith economaidd sylweddol oherwydd gwerth uchel masnachu. Roedd y diwydiant yn pwysleisio bod ansawdd y daith yn bwysicach na hyd y daith, gan nodi eu bod wedi gweld cyfraddau goroesi o 99.5% ar deithiau dros 24 awr. Pwysleisiodd cynrychiolwyr o'r diwydiant pa mor bwysig yw caniatau i stoc bridio gael ei gludo er mwyn hwyluso darpariaeth gwelliannau genetig.

**Moch:** Roedd cynrychiolwyr o'r diwydiant yn anghytuno'n gryf gyda'r uchafswm amseroedd teithio a gynigiwyd ar gyfer moch, sef 18 awr, a moch newydd eu diddyfnu o 8 awr. Roedden nhw'n credu bod yr amseroedd teithio a nodir yn y rheoliadau presennol[9] yn ddigonol, a bod angen ymchwil pellach cyn newid i'r gofynion presennol.

Roedd ymatebwyr o'r diwydiant yn dadlau y dylai moch newydd eu diddyfnu, moch gorffenedig, hychod a baeddod difa, a moch bridio gael eu hystyried ar wahân o ystyried y diben a'r dull rheoli gwahanol. Mae teithiau at ddibenion gwahanol yn amrywio o ran hyd, gyda hychod a baeddod difa'n gyffredinol angen teithio'n hirach ar ffyrdd oherwydd capasiti lladd-dai.

Roedd cynrychiolwyr o'r diwydiant yn dadlau na ddylid cynnwys moch bridio yn y gofynion uchafswm amseroedd teithio, gan fod angen cludo stoc bridio am bellteroedd hir er mwyn dyrannu llinellau bridio a chynnal amrywiaeth genetig. Caiff stoc bridio'r DU ei fasnachu'n fyd-eang oherwydd statws iechyd uchel y wlad. Yn aml, mae'r teithiau hyn yn hirach. Er hyn, nododd cynrychiolwyr o'r diwydiant bod mesurau rheoli llym ar waith fel bod anifeiliaid yn cyrraedd eu cyrchfan mewn "cyflwr ardderchog". Roedd y diwydiant yn dadlau y gallai

[9] Dan y rheoliadau presennol, gellid cludo moch am uchafswm o 24 awr. Gellid cludo moch bach heb eu diddyfnu am 9 awr, wedi hynny mae angen cyfnod gorffwys o awr, ac yna gellid eu cludo am 9 awr pellach.

cyfyngu ar y fasnach arwain at gynhyrchwyr y DU yn cynyddu dibyniaeth ar stoc sy’n cael ei fewnforio a cholli geneteg y DU.

Nododd cynrychiolwyr o’r diwydiant moch bod moch newydd eu diddyfnu fel arfer yn cael eu llwytho, eu cludo ac yn cael eu brechu wrth gael eu dadlwytho. Er bod hyn yn ymestyn yr amser teithio cyffredinol, mae’n lleihau faint o weithiau y mae’r diddyfnwr yn cael ei drin.

Roedd rhai grwpiau o’r diwydiant yn cytuno gyda’r cynnig am uchafswm amseroedd teithio, gan nodi bod brob pob taith yn digwydd ar hyn o bryd o fewn y terfynau amser a nodir ar gyfer moch hŷn a moch wedi’u diddyfnu. Cynigiodd grwpiau lles anifeiliaid uchafswm amser teithio o 8 awr ar gyfer yr holl foch, gan nodi eu bod nhw’n teimlo straen yn hawdd wrth gael eu cludo a’u trin. Cynigiodd un sefydliad (CIWF) y dylid caniatau eithriadau ar gyfer moch bridio’n unig am uchafswm o 18 awr.

**Gwartheg a lloi:** Roedd rhai grwpiau lles anifeiliaid a milfeddygon yn cefnogi’r cynigion am uchafswm amseroedd teithio o 21 awr i wartheg, er bod rhai grwpiau lles anifeiliaid yn cynnig amseroedd byrrach i wartheg hŷn, sef 8 awr. Roedd grwpiau lles anifeiliaid yn anghytuno gyda’r cynnig o uchafswm amser teithio o 9 awr i loi hyd at 9 mis oed. Roedden nhw’n credu y dylid osgoi teithiau fel hyn yn gyfan gwbl, neu sicrhau eu bod nhw’n fyr iawn.

Nid oedd y rhan fwyaf o brif gynrychiolwyr y diwydiant gwartheg yn cefnogi’r cynigion uchafswm amseroedd teithio i wartheg, ac nid oedden nhw’n credu fod angen newid y gofynion presennol. Roeddent o’r farn fod y cynnig yn anymarferol, ac yn debygol o gael effaith ariannol negyddol ar y diwydiant. Roedd pryderon penodol ynghylch effaith y cynigion ar ffermwyr mewn ardaloedd mwy anghysbell yn y DU, gan gynnwys Ynysoedd yr Alban a Jersey.

Amlygodd cynrychiolwyr o’r diwydiant gwartheg ac arwerthwyr byw da bod marchnadoedd byw da, canolfannau casglu a chodi a gollwng niferus yn rhan hanfodol o symud byw da ac effaith ar amseroedd teithio. Awgrymodd rhai o’r ymatebwyr hyn y dylai amser sy’n cael ei dreulio mewn marchnadoedd fod yn eithriad o ran yr uchafswm amser teithio.

Roedd grwpiau lles anifeiliaid yn cefnogi’r cyfnod gorffwys 7 diwrnod arfaethedig i wartheg, gan nodi tystiolaeth wyddonol fel y’i cyflwynwyd yn adroddiad y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC) yn 2019 ar les wrth gael eu cludo. Roedd yr holl brif gynrychiolwyr o’r diwydiant gwartheg yn anghytuno gyda’r cyfnod gorffwys arfaethedig o 7 diwrnod. Roedd pryderon ynghylch materion lles anfwriadol, ac effeithiau ariannol. Nododd llawer o bobl y dylid caniatau teithiau dilynol yn syth, a mynegodd rhai breeder o ran sut fyddai’n gweithio’n ymarferol i anifeiliaid sy’n cael eu gwerthu mewn arwerthiant neu farchnad. Roedd cynrychiolwyr o’r farchnad byw da’n poeni na fyddai marchnadoedd yn gallu gweithio dan y cynigion hyn.

**Defaid:** Ar y cyfan, roedd sefydliadau lles anifeiliaid yn anghytuno gyda’r uchafswm amser teithio arfaethedig, sef 21 awr. Awgrymodd llawer o sefydliadau uchafswm amser teithio o 8 awr.

Nid oedd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr o'r diwydiant yn cytuno gyda'r amser teithio arfaethedig i ddefaid. Gwnaethant nodi bod symud defaid yn aml yn cynnwys sawl man codi, canolfan gasglu a marchnadoedd byw da a sioeau. Roedd yr amseroedd teithio arfaethedig yn debygol o wneud sioeau a marchnadoedd yn anhyfyw. Roedd llawer yn awgrymu na ddylai'r amser sy'n cael ei dreulio mewn marchnad a chanolfannau casglu gael eu cynnwys yn yr amser teithio.

Bu i gynrychiolwyr o ddiwydiant defaid yr Alban godi pryderon ynghylch yr effaith sylweddol y byddai'r cynigion yn eu cael ar deithiau o Ynysoedd yr Alban anghysbell i dir mawr y DU. Gwnaethant ddadlau bod y teithiau hyn yn hanfodol ac yn cael eu rheoleiddio'n llym, ac y byddai'r effeithiau economaidd o ran cyfyngu arnynt yn bygwth sawl cymuned wledig. Cafodd natur anghysbell cymunedau ffermio defaid mewn rhannau eraill o'r DU ei godi hefyd gan ymatebwyr eraill o'r diwydiant.

Doedd dim o brif gynrychiolwyr y diwydiant defaid yn cytuno gyda'r cyfnod gorffwys arfaethedig o 48 awr. Nododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch sut fyddai hyn yn gweithio'n ymarferol i anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu mewn ocsiwn neu farchnad, a dywedodd rhai y gallai arwain at golli pwysau'r anifail a chael effaith andwyol ar ansawdd y cig.

**Ceffylau:** Roedd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr y diwydiant ceffylau, lles a milfeddygol yn cytuno gyda'r amseroedd teithio arfaethedig o 12 awr i geffylau, gan gydnabod bod perthynas rhwng amlder problemau iechyd yn ymwneud â thrafnidiaeth a hyd y daith. Nododd un sefydliad lles anifeiliaid y dylai ceffylau gael uchafswm amser teithio o 8 awr, ac y dylid ystyried uchafswm arall o 12 awr i geffylau cystadlu elît a bridio'n unig. Dywedodd sefydliadau lles ceffylau y dylai eithriadau i'r amseroedd teithio fod yn unol ag awdurdod milfeddyg. Gwnaethant awgrymu y dylid ystyried cymunedau ceffylau ar Ynysoedd yr Alban anghysbell, all gael eu heffeithio gan y cynigion.

Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr na fydden nhw'n gweld effaith ariannol yn sgîl y cynigion, gan fod y rhan fwyaf o deithiau'n cymryd o dan 9 awr. Fodd bynnag, byddai'r mesurau'n effeithio ar y diwydiant rasio ceffylau a chystadlaethau, lle mae ceffylau tryryw'n aml yn teithio'n rhyngwladol er mwyn cystadlu neu fridio.

Roedd yr holl grwpiau ceffylau yn erbyn y cyfnod gorffwys o 48 awr rhwng teithiau, yr oeddent o'r farn y byddai'n cael effaith ddwys ar gystadlu a bridio domestig, amatur a phroffesiynol. Nodwyd y dylai'r diwydiannau rasio Prydeinig a bridio gael eu hepgor o'r cynnig. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid gorffwys ceffylau am o leiaf 9 awr cyn caniatau iddynt deithio am 12 awr arall. Fodd bynnag, nodwyd na ddylai hyn fod yn berthnasol i geffylau sy'n cael eu cludo'n uniongyrchol i ladd-dai; ni ddylai'r anifeiliaid hyn deithio'n hirach na'r uchafswm amser teithio.

**Rhywogaethau eraill:** Nid oedd cynrychiolwyr o'r fasnach ymlusgiaid yn cytuno y dylai'r uchafswm amser teithio, sef 21 awr, fod yn berthnasol i ymlusgiaid ac anifeiliaid anwes egsotig. Roedden nhw'n dadlau bod modd eu cludo am gyfnodau hirach oherwydd eu metabolaeth wahanol i famaliaid ac adar.

Awgrymwyd hefyd y byddai'r cynigion yn arwain at oblygiadau sylweddol o ran symud ymlusgiaid ac anifeiliaid anwes ecsotig. Ni fyddai llawer o lwybrau'n hyfyw mwyach gan fod anifeiliaid yn aml yn dod o dramor, ac yn amodol ar weithdrefnau clirio manwl mewn meysydd awyr. Awgrymwyd y dylai'r rhywogaethau hyn gael eu hepgor o'r cynnig, a'r cyfnod gorffwys arfaethedig o 48 awr.

Nid oedd cynrychiolwyr o'r fasnach pysgod addurnol yn cytuno gyda'r uchafswm amseroedd teithio ar gyfer pob rhywogaeth arall o 21 awr. Roedden nhw'n credu y dylai pysgod addurnol gael eu hepgor oherwydd eu gofynion gwahanol i anifeiliaid sy'n anadlu aer. Pe byddent yn cael eu pacio'n gywir, gallai pysgod addurnol oroesi dros 48 awr wrth gael eu cludo. Ar hyn o bryd, roedd y teithiau cyfartalog yn 21-24 awr. Roeddent yn dadlau na fyddai'r cyfnod gorffwys arfaethedig yn ymarferol oherwydd y ffordd yr oedd y pysgod yn cael eu pacio.

## Amodau Thermol ac Awyru

**C13a: Ydych chi'n cytuno y dylem gyfyngu ar deithiau hir a byr i ddofednod pan fo'r tymheredd allanol y tu allan i ystod dymheredd o 5-25°C, oni bai bod y cerbyd yn gallu rheoleiddio'r tymheredd mewnol o fewn yr ystod hon ar gyfer y daith gyfan drwy ddefnyddio system thermo-reoleiddio,**

**C13b; ac y dylid pennu ystod dymheredd o 5-25°C? Eglurwch eich barn.**

**C14: Beth fyddai'r effaith ariannol i'ch busnes neu sefydliad yn deillio o gyfyngu ar deithiau hir a byr i ddofednod pan fo'r tymheredd allanol y tu allan i 5-25°C? Eglurwch unrhyw effaith.**

**C15: Ydych chi'n cytuno y dylem gyfyngu ar deithiau hir a byr i fyw da a cheffylau pan fo'r tymheredd allanol y tu allan i ystod dymheredd o 5-30°C, oni bai bod y cerbyd yn gallu rheoleiddio'r tymheredd mewnol o fewn yr ystod hon ar gyfer y daith gyfan drwy ddefnyddio system thermo-reoleiddio, ac y dylid pennu ystod dymheredd o 5-30°C? Eglurwch eich barn.**

**C16: Beth fyddai'r effaith ariannol i'ch busnes neu sefydliad yn deillio o gyfyngu ar deithiau byr a hir i fyw da a cheffylau pan fo'r ystod dymheredd allanol y tu allan i 5-30°C? Eglurwch unrhyw effeithiau.**

**C17: Ydych chi'n credu bod rhai rhywogaethau eraill y dylid eu hystyried yn agored i niwed, sydd angen ystod dymheredd allanol llai, fydd yn golygu nad oes modd teithio y tu allan i'r ystod hon? Rhowch dystiolaeth.**

**C18: Pa gyfran o'ch cerbydau cludiant presennol sy'n gallu rheoleiddio tymheredd a darparu cyfleusterau awyriad?**

**C19: Ar gyfer eich cerbydau nad ydynt yn gallu rheoleiddio'r tymheredd a chynnig cyfleusterau awyriad, faint fyddai'n costio i'w hôl-ffitio nhw i'w galluogi i reoleiddio tymheredd a darparu cyfleusterau awyriad?**

**C20: Oes unrhyw gamau eraill all gael eu rhoi ar waith i sicrhau bod modd cynnal lles anifeiliaid mewn tywydd garw? Rhowch dystiolaeth.**

Roedd 55% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cyfyngu ar deithiau hir a byr i ddofednod gyda thymheredd allanol y tu allan i'r ystod 5-25°C oni bai bod thermo-reoleiddio ar waith. Roedd 53% yn cytuno gyda'r ystod dymheredd arfaethedig o 5-25°C. Dywedodd 16% o'r ymatebwyr y byddai'r cynnig yn cael effaith ariannol sylweddol ar eu busnes neu sefydliad. Roedd yr ymatebwyr hyn gan fwyaf yn ffermwyr neu'n unigolion a chludwyr.

Roedd yr ymatebwyr i'r cynnig y dylid gwahardd teithiau byw da gyda thymheredd allanol y tu allan i 5-30°C oni bai bod thermo-reoleiddio ar waith yn nodi barn wahanol. Roedd 36% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynnig. Roedd 34% yn cytuno y dylai'r ystod dymheredd fod 5-30°C. O'r rhai oedd yn cytuno, roedd tua thraean yn ffermwyr a'r gweddill yn aelodau'r cyhoedd.

O'r rhai oedd yn anghytuno, y sectorau a gafodd eu cynrychioli fwyaf oedd ffermwyr ac aelodau'r cyhoedd. Roedd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr o'r diwydiant byw da, gan gynnwys cynrychiolwyr arwerthwyr a'r farchnad, cynhyrchwyr bwyd a lladd-dai, hefyd yn anghytuno gyda'r ystod dymheredd a nodwyd. Roedd y rhan fwyaf oedd yn anghytuno'n sôn am yr ystod is, gan ddadlau ei fod yn ddiangen ac yn anymarferol, ac y byddai'n arwain at golledion economaidd sylweddol yn ystod misoedd y gaeaf. Nododd 47% o'r holl ymatebwyr, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn ffermwyr, y byddai'r cynnig yn arwain at effaith ariannol sylweddol i'w busnes neu sefydliad. Dywedodd 86% o'r ymatebwyr nad oedd gan unrhyw rai o'u cerbydau cludo presennol gyfleusterau i reoleiddio tymheredd a chynnig cyfleusterau awyriad. Roedd 57% o'r ymatebwyr yn amcangyfrif y byddai'r pris o ôl-ffitio'r cerbydau i alluogi hyn yn ddrud iawn.

Roedd llawer o sefydliadau lles anifeiliaid yn anghytuno gyda'r ystodau tymheredd arfaethedig, gan gynnig ystodau llai neu ystodau tymheredd penodol i rywogaethau. Roedd 57% o'r ymatebwyr yn cytuno bod rhywogaethau eraill y dylid eu hystyried yn agored i niwed, a chael ystod dymheredd allanol llai na 5-30°C.

**Dofednod:** Dywedodd grwpiau milfeddygol bod gan ddofednod gyfraddau 'wedi marw wrth gyrraedd' (DOA) uwch mewn tymheredd garw na rhywogaethau eraill, ac roeddent yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor, er eu bod nhw'n codi pryderon ynghylch sut fyddai'r cynnig yn gweithio'n ymarferol.

Roedd sefydliadau lles anifeiliaid yn cefnogi gweithredu ystodau tymheredd ar gyfer teithiau a ganiateir, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylai'r tymheredd isaf fod yn 5°C. Awgrymodd rhai y dylai'r tymheredd uwch gael ei leihau i 22°C, gan fod tystiolaeth yn nodi bod cyfraddau marwolaeth 6.6 gwaith yn uwch ar dymheredd yn uwch na 23°C. Cynigiodd un sefydliad ystod dymheredd 10-25°C ar gyfer ieir. Roedd un arall yn argymell yn gryf y dylai'r holl ddofednod gael eu cludo mewn cerbydau gyda chyfleusterau thermo-reoleiddio.

Roedd cynrychiolwyr o'r diwydiant dofednod yn gryf yn erbyn y cynigion, gan nodi bod safonau ymarfer cadarn eisoes ar waith i ddelio gyda thywydd garw. Dywedon nhw fod amodau thermol y cerbyd yn bwysicach na thymheredd yr amgylchedd, ac nid ydynt yn

ymwybodol o gerbydau gyda system thermo-reoleiddio sy'n gweithio yn y sector ieir brwylio neu ieir sy'n dodwy. Bu i'r busnesau dofednod amcangyfrif y byddai 55% o deithiau'n cael eu heffeithio yn y gaeaf, a hyd at 30% yn yr haf. Nododd y Cyngor Dofednod Prydeinig y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith ariannol sylweddol ar ddiwydiant dofednod Prydain Fawr.

Cododd grwpiau lles anifeiliaid, gan gynnwys yr ymgyrch Animal Aid, bryderon penodol ynghylch cywion ifanc. Dywedodd cynrychiolwyr o'r diwydiant eu bod yn cael eu cludo mewn cerbydau lle mae modd rheoli'r tymheredd ar hyn o bryd, ac felly ni fyddai'r cynigion yn effeithio arnynt.

**Byw da a cheffylau:** Roedd ymatebwyr o'r diwydiant byw da, gan gynnwys ffermwyr moch, gwartheg a defaid yn anghytuno gyda'r cynnig i bennu ystodau tymheredd allanol. Roedd llawer o aelodau'r diwydiant yn credu mai'r tymheredd mewnol, nid allanol, ddylai gael ei ystyried. Dywedodd aelodau'r diwydiant y byddai'r gofynion tymheredd hyn yn cael effaith sylweddol ar deithiau presennol, gan y gallai'r tymheredd fod yn is na 5°C am gyfnodau hir mewn rhannau o'r wlad. Gall gwahaniaethau rhanbarthol o ran tymheredd arwain at gyfyngiadau masnach daearyddol ac anfanteision cystadleuol i rai rhanbarthau, gan gynnwys Ynysoedd yr Alban. Roedd cynrychiolwyr eraill o'r diwydiant yn nodi y byddai methu â symud byw da yn ystod misoedd y gaeaf a misoedd yr haf yn arwain at golledion ariannol sylweddol. Byddai'n lleihau'r capasiti mewn lladd-dai, gan arwain at ddiswyddo staff a chostau uwch i'r cynhyrchwyr.

Nododd cynrychiolwyr o'r diwydiant defaid bod defaid ar y cyfan yn byw y tu allan gydol y flwyddyn ym mhob tymheredd, ac ni fyddai eu symud nhw mewn tymereddau isel yn effeithio'n andwyol ar les yr anifeiliaid. Dywedodd ffermwyr moch yr un peth am foch sy'n byw y tu allan, a'u bod nhw'n addasu'n dda i'w hamgylchedd. Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r diwydiant ceffylau, milfeddygol a lles bod yr ystod dymheredd arfaethedig yn rhy lym o safbwynt ceffylau. Dywedon nhw fod ceffylau'n gallu thermo-reoleiddio'n effeithiol, a bod modd cynorthwyo hyn gyda rygiau mewn tymereddau is a dwysedd stocio.

Roedd llawer o gynrychiolwyr o'r diwydiant defaid yn cytuno bod symud anifeiliaid mewn tymheredd rhy boeth yn gallu bod yn beryglus i fyw da, oherwydd straen gwres. Roedd sefydliadau lles ceffylau'n cytuno y dylid pennu cyfyngiad o 30$^{o}$C ar ei uchaf, ond dim cyfyngiad is. Nododd sefydliadau lles anifeiliaid y dylid gostwng y cyfyngiad tymheredd o 30°C i 25°C. Gwnaethant nodi hefyd y dylai lloi ond gael eu cludo pan fo'r tymheredd allanol yn 15-25°C oherwydd y microhinsawdd mewn cerbydau cludo anifeiliaid.

Nododd un ymatebwr o'r diwydiant bod tagfeydd traffig, sy'n golygu bod angen i gerbydau stopio'n llwyr, yn atal cyfleusterau awyriad digonol, yn enwedig mewn tymheredd poeth. Byddai lleihau swm yr amser y mae cerbydau wedi stopio mewn tywydd eithafol yn helpu i gynnal llif aer, ac osgoi straen gwres, er enghraifft drwy flaenoriaethu cludwyr anifeiliaid byw mewn traffig.

**Rhywogaethau eraill:** Dywedodd cynrychiolwyr o'r fasnach ymlusgiaid a rhywogaethau egsotig y dylai'r rhywogaethau hyn gael eu heithrio rhag gofynion tymheredd allanol. Nid yw'r cynigion hyn yn briodol i ymlusgiaid ac amffibiaid, gan eu bod nhw'n cael eu cludo

mewn bocsys sydd wedi'u dylunio'n benodol i gynnal y tymheredd mewnol o fewn ystod benodol.

Nododd sefydliadau lles anifeiliaid bod rhai rhywogaethau o bysgod yn teimlo newidiadau mewn tymheredd yn sylweddol, ac y dylid rheoleiddio'r ystod dymheredd yn ofalus yn ôl rhywogaethau, ac yn ôl os ydynt yn rhywogaethau dŵr oer, cymedrol neu gynnes. Dywedodd cynrychiolwyr o'r fasnach pysgod addurnol nad oes angen awyriad ychwanegol, rheoleiddio'r tymheredd a/neu systemau rhybuddio oherwydd y ffordd y mae'r pysgod yn cael eu pacio.

Nododd rhai sefydliadau lles anifeiliaid y gallai'r rhywogaethau canlynol fod angen ystod dymheredd allanol llai, sy'n golygu na fyddai modd cynnal teithiau y tu allan i'r ystod honno: geifr, ymlusgiaid, primatiaid, amffibiaid, anifeiliaid sw, adar hela, anifeiliaid cymar ac anifeiliaid heb eu diddyfnu (pob rhywogaeth).

## Lwfansau Gofod

**C21: Ydych chi'n cytuno y dylem ddefnyddio egwyddorion alometrig er mwyn pennu cyfrifiadau lwfansau gofod yn y dyfodol? Eglurwch eich barn.**

**C22: Ydych chi'n credu y dylai diwygiadau ar sail egwyddorion alometrig fod yn berthnasol i deithiau hir a byr? Eglurwch eich barn.**

Ar y cyfan, roedd 37% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid defnyddio egwyddorion alometrig i gyfrifo lwfansau gofod. Roedd cyfran fawr o ymatebwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant a sefydliadau lles anifeiliaid, oedd yn anghytuno, yn cefnogi'r cynigion mewn egwyddor, ond yn codi pryderon ynghylch sut fyddent yn gweithio'n ymarferol. Nododd y diwydiant na fyddent yn gallu asesu'r effaith ar y busnes nes bod y fformiwlâu ar gyfer y cyfrifiadau wedi'u pennu.

Roedd 37% o'r holl ymatebwyr yn cytuno y dylai'r egwyddor fod yn berthnasol i bob taith, a dywedodd 11% y dylai'r egwyddorion fod yn berthnasol i deithiau hir yn unig.

Ymhlith yr ymatebwyr nad oedden nhw'n cytuno gyda'r cynnig roedd rhai cynhyrchwyr bwyd, cynrychiolwyr marchnadoedd byw da neu arwerthwyr, grwpiau ceffylau a ffermwyr a chludwyr yn bennaf. Roedd rhai grwpiau o'r diwydiant oedd yn anghytuno gyda'r cynigion yn credu bod angen ymchwilio ymhellach cyn gweithredu unrhyw newidiadau. Roedd grwpiau ceffylau oedd yn erbyn y cynnig yn cwestiynu sut fyddai'r egwyddorion yn gweithio'n ymarferol, gan gredu y dylai lwfansau gofod adlewyrchu canllawiau arfer gorau presennol. Nid oedd cynrychiolwyr o'r fasnach ymlusgiaid yn cytuno gyda'r cynigion gan na fyddent yn berthnasol i'r rhywogaethau hyn oherwydd eu bioleg wahanol. Roeddent yn credu bod ymlusgiaid mor amrywiol fel na fyddai modd ei weithredu'n ymarferol.

Gofynnodd llawer o grwpiau o'r diwydiant a sefydliadau lles anifeiliaid am ragor o ymgysylltu ar y cynigion hyn. Roeddent yn credu y dylid ystyried statws yr anifeiliaid wrth bennu'r cyfrifiadau, gan gynnwys rhywogaethau, oedran, pwysau, rhyw ac iechyd. Roedd ffactorau eraill, megis awydd naturiol defaid i orwedd wrth gael eu cludo, yn ogystal â mynediad cyson

i ddŵr i foch, angen eu hystyried hefyd. Roedd rhai sefydliadau lles anifeiliaid yn gryf o blaid y cynigion, gan nodi y byddent yn hoffi i'r cynigion gynnwys hyd yn oed y teithiau byrrach, o dan 50km.

## Lwfansau Lle Uwch Ben

**C23: Ydych chi'n cytuno gyda'r gofynion lle uwch ben penodol i rywogaeth arfaethedig? Eglurwch eich barn.**

**C24: Ydych chi'n cytuno y dylai'r gofynion lle uwch ben penodol i rywogaeth arfaethedig fod yn berthnasol i deithiau byr a hir? Eglurwch eich barn.**

**C25: Beth fyddai'r effaith ariannol ar eich busnes neu sefydliad yn deillio o'r gofynion lle uwch ben arfaethedig ar gyfer teithiau byr a hir? Eglurwch unrhyw effeithiau.**

Cafodd barn wahanol ei mynegi yn yr ymatebion i'r gofynion lle uwch ben penodol i rywogaethau arfaethedig. Roedd y rhan fwyaf o ffermwyr a chludwyr yn credu bod y cynigion yn anymarferol. Ar y llaw arall, roedd rhai sefydliadau lles anifeiliaid o'r farn fod y lwfansau arfaethedig yn annigonol, ac, mewn rhai achosion, gwnaethant gynnig lwfansau newydd i rywogaethau gwahanol.

Ymhlith y grwpiau oedd o blaid y lwfansau lle uwch ben arfaethedig oedd milfeddygon, rhai cynrychiolwyr o farchnadoedd byw da ac arwerthwyr a bron hanner aelodau'r cyhoedd wnaeth ymateb. Roedd 50% o'r ymatebwyr yn credu y dylai'r gofynion lle uwch ben fod yn berthnasol i deithiau byr a hir, roedd 6% o blaid teithiau byr yn unig, llai na 1% o blaid teithiau byr yn unig a nododd 43% na ddylai'r gofynion gael eu gweithredu o gwbl.

Dywedodd 37% o'r ymatebwyr y byddai'r cynigion yn cael effaith ariannol sylweddol ar eu busnes neu sefydliad, tra bod 56% yn nodi y byddai'r effaith ariannol yn fychan, neu ddim effaith o gwbl.

**Moch:** Nid oedd cynrychiolwyr o'r diwydiant yn cytuno gyda'r gofynion lle uwch ben arfaethedig i foch. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau nad yw lle uwch ben yn broblem gan fod moch fel arfer yn gorwedd wrth gael eu cludo. Byddai goblygiadau cost y cynigion yn amlwg ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi, a byddai costau cludo'n codi o ganlyniad. Nododd y diwydiant y gallai'r cynigion leihau capasiti moch bridio sy'n cael eu cludo mewn awyren gan 30% i 50%. Gall hyn olygu nad yw cludo mewn awyrennau'n hyfyw'n economaidd. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o'r diwydiant yn cytuno y dylid sicrhau digon o le uwch ben i foch wrth gael eu cludo, ond hoffent weld rhagor o sail dystiolaeth cyn newid y gofynion presennol.

Mynegodd sefydliadau lles anifeiliaid bryder fod y cynnig lle uwch ben i foch yn llai na defaid, er bod moch digon o bwysau i gael eu lladd yn sylweddol drymach. Roedd rhai sefydliadau'n cynnig lwfansau lle uwch ben mwy i foch, o 15cm i 40cm.

**Gwartheg:** Nid oedd cynrychiolwyr o'r diwydiant gwartheg yn cytuno gyda'r gofynion lle uwch ben arfaethedig, gan ddadlau bod y newidiadau'n anymarferol. Gofynnodd

cynrychiolwyr o'r diwydiant a chynrychiolwyr milfeddygol am eglurder o ran pam fod gwahaniaethau yn y gofynion lle uwch ben i fridiau cig eidion a chynnyrch llaeth, yn ogystal â rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth sy'n ategu'r cynigion hyn. Cododd ymatebwr o'r diwydiant bryderon am faterion lles yn deillio o ragor o le uwch ben, gan gynnwys anafiadau ynghylch ymddygiad mowntio ymysg gwartheg. Roedd cynrychiolwyr o'r diwydiant o'r farn y byddai effaith amgylcheddol ac ariannol enfawr o ran diweddaru neu ddisodli cerbydau, yn benodol yr effaith o newid cerbydau o rai gyda dau lawr i fod ag un llawr.

**Defaid:** Roedd pob prif gynrychiolydd o'r diwydiant defaid yn anghytuno gyda'r cynnig. Roedden nhw'n dadlau bod un 'uchder lle uwch ben safonol' i ddefaid yn anymarferol oherwydd maint, siâp, natur a chorff dros 80 o wahanol fridiau o ddefaid. Awgrymodd cynrychiolwyr milfeddygol y gellid diffinio gofynion lle uwch ben yn well o bwynt sefydlog y defaid yn hytrach na phwynt symudol, megis yr ysgwydd. Amlygodd ymatebwyr o'r diwydiant y byddai defaid yn fwy tebygol o gael eu hanafu pe byddai lle i neidio. Cynigiodd sefydliadau lles anifeiliaid y dylai defaid gael lwfans lle uwch ben o 30cm i alluogi awyru digonol.

Roedd ymatebwyr o'r diwydiant yn poeni y byddai'r cynigion yn golygu na fyddai loris gyda mwy nag un llawr yn hyfyw mwyach. Byddai effaith hyn yn golygu bron 50% yn llai o ddefaid yn cael eu cludo bob tro: gan ychwanegu costau, ôl-troed carbon a lleihau proffidadwyedd.

**Ceffylau:** Roedd rhan fwyaf y grwpiau ceffylau wnaeth ymateb yn anghytuno gyda'r cynigion lle uwch ben i geffylau. Roedd y rhan fwyaf o'r farn bod y gofynion presennol yn nodi o leiaf 75cm uwch ben yn ddigonol. Nodwyd bod mesur uwch ben y pen yn anymarferol, ac y dylid defnyddio pwynt sefydlog (gwar) fel sail.

Roedd grŵp milfeddygol yn cytuno gyda'r cynnig lle uwch ben, a nodwyd manylebau ar gyfer lwfansau gofod ar bob ochr o'r anifail, y tu blaen a'r cefn, er mwyn atal datblygiad problemau anadlol. Amlygodd grwpiau lles asynnod y gallai asynnod fod ag anghenion lle uwch ben gwahanol i geffylau, oherwydd eu clustiau hirach.

Cytunodd bob ymatebwr y dylai'r gofynion lle uwch ben i geffylau fod yn berthnasol i bob taith, waeth beth fo'r hyd.

Nododd y rhan fwyaf o randdeiliaid bod y rhan fwyaf o'r cerbydau a ddefnyddir i gludo ceffylau'n debygol o fod yn fwy na'r cynnig 20cm uwch ben y pen, felly ni fyddai llawer o oblygiadau ariannol.

## Cludo ar y Môr

**C26: Ydych chi'n cytuno y dylem atal anifeiliaid rhag cael eu cludo ar y môr mewn tywydd garw, ac na ddylid cludo anifeiliaid yn ystod Grym Gwynt Beaufort 6 neu uwch? Eglurwch eich barn.**

**C27: Beth fyddai'r effaith ariannol ar eich busnes neu sefydliad yn deillio o gyfyngu ar drafnidiaeth yn ystod Grym Gwynt Beaufort 6 neu uwch? Eglurwch unrhyw effeithiau a nodwyd.**

Roedd 74% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid peidio â chludo anifeiliaid ar y môr mewn tywydd garw, ac roedd 67% yn cytuno na ddylent eu cludo yn ystod Grym Gwynt Beaufort 6 neu uwch. Roedd y rhai oedd yn cytuno'n cynnwys aelodau'r cyhoedd, sefydliadau anllywodraethol, milfeddygon a ffermwyr. Roedd rhai o'r sefydliadau lles anifeiliaid wnaeth ymateb yn nodi y dylid lleihau'r uchafswm grym gwynt a ddylid ei ganiatáu i 5, yn unol ag argymhellion Phwyllgor Gwyddonol yr UE ar Iechyd Anifeiliaid a Lles Anifeiliaid. Roedd rhai grwpiau lles anifeiliaid o'r farn mai dim ond teithiau ar y môr o fewn Ynysoedd Prydain ddylid eu caniatau ar gyfer anifeiliaid bridio.

Ymysg y rhai oedd yn anghytuno gyda'r cynigion oedd rhai ffermwyr, cludwyr, grwpiau lles ceffylau a chynrychiolwyr o'r diwydiant da byw. Roedd llawer ohonynt yn credu mai capten y llong ddylai benderfynu a ddylid hwylio neu beidio, a fyddai'n ystyried sawl ffactor yn ogystal â chyflymder gwynt all effeithio ar fordaith wrth benderfynu a ddylid hwylio neu beidio. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys grwpiau lles anifeiliaid, yn pryderu am y goblygiadau masnach o Ynysoedd yr Alban i dir mawr y DU. Roedd cynrychiolwyr o'r diwydiant moch yn poeni am y materion lles posibl all godi pan fo teithiau'n cael eu canslo ar fyr rybudd, gan gynnwys sicrhau cyfleusterau llety digonol lle mae modd cadw'r anifeiliaid nes bod amodau teithio'n caniatau. Roedd cynrychiolwyr o'r diwydiant dofednod yn poeni y gallai oedi o ran hwylio arwain at faich ariannol a materion lles posibl, gan gynnwys gorfod lladd cywion ifanc fyddai'n methu teithio.

## Eithriadau

**C28: Ydych chi'n credu y dylai fod unrhyw eithriadau i'r cynigion a drafodwyd yn flaenorol, yn ogystal â'r eithriadau penodol sydd eisoes wedi'u nodi, heblaw am y cynnig i wahardd allforio anifeiliaid byw ar gyfer eu lladd neu eu tewhau? Rhowch dystiolaeth.**

**C29: Pa amodau a ddylid eu bodloni er mwyn sicrhau bod lles anifeiliaid yn cael ei amddiffyn yn achos eithriadau eraill?**

**C30: Ydych chi'n credu y dylai fod yn bosibl cael caniatâd i ddefnyddio eithriad ar sail barhaus er mwyn osgoi'r angen i gludwyr ei ddefnyddio cyn bob taith berthnasol? Eglurwch eich barn.**

Roedd 95% o'r ymatebwyr yn credu na ddylai fod unrhyw eithriadau i'r cynigion. Roedd hyn yn cynnwys ymgyrch mawr yr RSPCA, oedd yn nodi "ni ddylid cyfaddawdu lles anifeiliaid, ac ni ddylai fod unrhyw eithriadau". Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau lles anifeiliaid yn erbyn eithriadau.

Roedd 5% o'r ymatebwyr o blaid rhai eithriadau i'r cynigion. Awgrymodd yr ymatebwyr eithriadau penodol, gan gynnwys eithriadau i'r cynigion ar gyfer pob taith ddomestig, eithriadau i'r uchafswm amseroedd teithio tra bod anifeiliaid mewn marchnadoedd, eithriadau i'r uchafswm amseroedd teithio ar gyfer moch bridio, ac eithriadau wrth gludo o leoliadau anghysbell.

Nododd grwpiau lles anifeiliaid bod angen tystiolaeth gadarn na fyddai lles yn cael ei gyfaddawdu cyn caniatau unrhyw eithriad. Roedd awgrymiadau ar gyfer amodau eraill a ddylid eu bodloni wrth ganiatáu eithriadau'n cynnwys: hyfforddiant ffurfiol cadarn a rheolaidd i gludwyr ac unrhyw barti sy'n trin byw da, manylebau uwch i gerbydau, gwelyau ychwanegol, cyfnodau gorffwys ychwanegol, CCTV gorfodol ar bob cerbyd, presenoldeb milfeddygol wrth lwytho a dadlwytho a gwiriadau ffitrwydd.

Nid oedd llawer o gynrychiolwyr o'r diwydiant yn credu bod angen rhoi unrhyw ofynion ychwanegol ar waith mewn achosion eithriadol. Dywedon nhw pe byddai eithriadau'n cael eu caniatau, eu pwrpas fyddai lleihau unrhyw effaith negyddol ar les anifeiliaid, a bod lles anifeiliaid sy'n cael eu derbyn yn cael ei wirio gan unigolyn cymwys ym mhob achos.

Roedd 42% o'r ymatebwyr yn credu y dylai fod yn bosibl defnyddio eithriad ar sail barhaus. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o ffermwyr a chludwyr, rhai o gynrychiolwyr o'r diwydiant moch a gwartheg a chynrychiolwyr ffermio o'r Alban. Roedd grwpiau eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr cludwyr ar ffyrdd a chynrychiolwyr milfeddygol yn credu y dylid caniatau eithriadau ar sail barhaus, ond bod angen cyfyngiad amser ar y rhain. Nododd 7% o'r ymatebwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant defaid a rhai grwpiau lles anifeiliaid y dylid caniatau eithriadau ar sail achosion unigol.

# Rhan 2: Datganiad Polisi

Rydym yn ddiolchgar i bawb wnaeth gymryd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd a'r dystiolaeth wyddonol a'r cyngor milfeddygol oedd ar gael wedi helpu i lywio ein camau nesaf dymunol.

Mae lles anifeiliaid yn faes polisi datganoledig. Mae'r datganiad polisi hwn yn ddatganiad ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth yr Alban wedi ymgynghori ar yr argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Ffarm. Ein nod yw sicrhau dull deddfwriaethol cyson, cyn belled ag sy'n bosibl, ar draws Prydain Fawr ac mae pob gweinyddiaeth yn cydweithio'n agos er mwyn cyflawni hyn.

Rydym wedi nodi'r ystod o ymatebion. Mae'r ymgynghoriad wedi codi rhai ystyriaethau pwysig ynghylch sut caiff polisi lles wrth gludo ei siapio, a sut fydd yn gweithio. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant, cyrff anllywodraethol a rhanddeiliaid eraill ar ein polisiau arfaethedig drwy gyfres o weithdai'n dechrau yn yr hydref, er mwyn archwilio rhai o'r materion a'r dystiolaeth yn fanylach a datblygu datrysiadau y gellid eu rhoi ar waith, a fydd yn arwain at ddeilliannau lles da. Unwaith y bydd wedi'i gytuno, bydd pecyn o ddiwygiadau'n cael ei roi ar waith drwy ddeddfwriaeth eilradd neu ganllawiau, fel sy'n briodol.

Nid yw'r cynigion yn berthnasol i deithiau o dan 65 km, megis symud rhwng ffermydd lleol.

## Allforio Anifeiliaid Byw

Wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, mae'r llywodraeth yn cadarnhau y bydd yn bwrw ymlaen â gwahardd allforio byw da (gwartheg, defaid, geifr a moch) a cheffylau o Gymru, Lloegr a'r Alban er mwyn eu lladd a'u tewhau.

Ni chaniateir allforio at ddibenion lladd neu dewhau o Gymru, Lloegr a'r Alban waeth os yw'r anifeiliaid yn dod o un o'r lleoedd hyn, neu'n teithio drwy Gymru, Lloegr neu'r Alban.

At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, cafodd allforio er mwyn tewhau ei ddiffinio fel allforio lle bydd yr anifail yn cael ei ladd o fewn 6 mis o gyrraedd. Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr yn beirniadu'r diffiniad arfaethedig, ac yn credu bod dim modd gorfodi terfyn amser. Wedi ystyried yr adborth hwn, rydym yn cynnig dileu'r cyfeiriad at derfyn amser o 6 mis, felly bydd y gwaharddiad yn berthnasol i bob achos o allforio byw da a cheffylau lle mae'r anifail yn cael ei allforio i gyrchfan er mwyn cael ei dewhau i'w ladd yn y pen draw.

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, mae'r llywodraeth wedi penderfynu cadw'r eithriadau ar gyfer allforio dofednod ac at ddibenion eraill heblaw am ladd neu dewhau, megis teithiau ar gyfer bridio, ymchwil gwyddonol a chystadlaethau neu sioeau, gan nad yw pryderon penodol wedi cael eu codi ynghylch goblygiadau lles teithiau o'r fath.

Nododd 74% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad mai allforio at ddibenion bridio ddylai fod yr unig eithriadau i wahardd teithiau byw. Roedd grwpiau lles anifeiliaid yn cydnabod bod anifeiliaid sy'n cael eu hallforio at ddibenion bridio'n gyffredinol yn cael eu cludo mewn niferoedd llai ac amodau gwell na'r rhai sy'n cael eu hallforio at ddibenion lladd a thewhau.

Dywedodd 78% o'r ymatebwyr na ddylid caniatau eithriad ar gyfer allforio dofednod byw. Roedd y ffigur hwn wedi'i ddylanwadu'n helaeth gan yr ymgyrch RSPCA mawr, nad oedd yn amlygu pryderon lles penodol o ran allforio dofednod o Byrdain Fawr. Roedd rhai sefydliadau lles anifeiliaid yn cefnogi eithriad ar gyfer dofednod, pe bai ond yn berthnasol i gywion newydd sbon neu gywion "diwrnod oed". Yn gyffredinol, mae allforio dofednod presennol yn digwyd gyda niferoedd sylweddol o gywion newydd gael eu dodwy o'r DU i Ewrop cyfandirol a gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE, ac mae data EU TRACES yn nodi bod allforio dofednod un ai'n digwydd ar gyfer bridio neu ddibenion eraill. Ymhellach i hyn, ni fu unrhyw achosion o allforio dofednod ar gyfer eu lladd neu eu tewhau o Brydain Fawr i'r UE yn 2020.[10] Er bod pryderon wedi cael eu codi ynghylch allforio dofednod at ddibenion eraill, doedd dim digon o dystiolaeth i'w cynnwys yn rhan o'r gwaharddiad.

Barn y llywodraeth yw y dylid cludo anifeiliaid os oes angen yn unig, a bod angen dewis y llwybr sydd fwyaf addas i les. Dylid lleihau hyd teithiau lle bo'n bosibl i leihau'r risg o gymhlethdodau lles yn ystod teithiau. O safbwynt lles, creda'r llywodraeth fod teithiau allforio at ddibenion lladd a thewhau'n ddiangen, neu'n peri straen diangen, gan fod modd lladd neu dewhau'r anifeiliaid yn ddomestig ac felly, byddai unrhyw daith o'r fath at y dibenion hyn yn fyrrach ac yn peri llai o straen nag unrhyw daith gyfwerth i wlad arall.

Nodwyd pryderon gan ymatebwyr am ddiffyg lladdai lleol. Cafodd effaith gwahardd allforio anifeiliaid byw ar ddewis o ladd-dai ei hystyried yn rhan o Asesiad o Effaith. Mae nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu hallforio at ddibenion lladd yn cynrychioli cyfran fechan iawn o gyfanswm yr anifeiliaid sy'n cael eu prosesu'n y DU bob blwyddyn; mae ffigurau allforio at ddibenion lladd ar gyfer 2020 o Brydain Fawr i'r UE yn cynrychioli tua 0.03% o'r holl ddefaid a gafodd eu lladd yn y DU. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod tueddiadau diweddar yn nodi bod rhagor o anifeiliaid yn cael eu lladd yn y DU er gwaetha'r gostyngiad yn niferoedd y lladd-dai domestig, ac y dylai'r capasiti lladd-dai presennol allu ymdopi â chyflenwad anifeiliaid sy'n cael eu hallforio ar hyn o bryd. Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn cynnal ystod ddaearyddol ac arbenigol eang iawn o ran y lladd-dai hynny.

Roedd rhai o'r ymatebwyr oedd yn poeni am ddiffyg capasiti lladd-dai'n honni bod lladd-dai yn Ffrainc a Gwlad Belg yn gyflymach i'w cyrraedd na'r rhai yn y DU. Noda tystiolaeth yn yr Asesiad o Effaith fod yr honiad hwn yn gorddweud. Yn ôl data TRACES[11], roedd y daith

[10] Mae'r rhain yn cynnwys unrhyw beth arall na chafodd ei gynnwys yn y categori'n rhan o'r gyfres ddata.

[11] Data EU Traces nad yw ar gael i'r cyhoedd. Nid yw'r data 2018 hwn yn cynnwys o ble mae'r allforio yn y DU'n digwydd. Felly, rydym wedi cymryd yn ganiataol bod teithio o'r DU i Ewrop cyfandirol wedi dod o Brydain Fawr; felly, teithiau allforio o Brydain Fawr i Ewrop cyfandirol.

allforio uniongyrchol i ladd-dy o'r DU i Ewrop cyfandirol oddeutu 18 awr o ran amser teithio, gydag amser teithio canolrifol o 21 awr ar gyfer pob taith uniongyrchol i ladd-dy yn 2018. Mae'r Asesiad o Effaith hefyd yn amlygu bod y rhan fwyaf o deithiau sy'n digwydd yn y DU'n is nag 8 awr, gyda dim ond ychydig yn uwch na hyn. Felly, mae'r teithiau arferol at ddibenion lladd neu dewhau'n anhebygol o fod yn uwch na'r amseroedd canolrifol ar gyfer teithiau allforio at ddibenion lladd.

Ar ôl ystyried yn llawn y cyngor gwyddonol ac arbenigol, a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r llywodraeth yn manteisio ar ymadawiad y DU o'r UE i gyflawni ymrwymiad maniffesto llywodraeth y DU i ddirwyn i ben teithiau hir iawn at ddibenion lladd a thewhau drwy wahardd allforio anifeiliaid byw er mwyn eu lladd a'u tewhau drwy'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir). Mae ymadawiad y DU o'r UE wedi rhoi cyfle da iawn i ni i fynd i'r afael â'r uchelgais hon.

## Uchafswm Amseroedd Teithio

Ar hyn o bryd, nid yw'r rheoliadau lles wrth gludo'n nodi terfynau uchafswm amseroedd teithio. Fel mae pethau ar hyn o bryd, gall gofynion amseroedd teithio, gan gynnwys egwyliau'n ystod y daith, gael eu hailadrodd yn barhaus, os yw anifeiliaid yn cael eu dadlwytho, yn cael bwyd a diod ac yn cael gorffwys am o leiaf 24 awr. Wedi hyn, mae modd dechrau'r broses gyfan eto a'i hailadrodd. Yn ôl FAWC, gall hyn beri pryderon lles anifeiliaid sylweddol, gan fod modd cludo anifeiliaid am gyfnod penagored mewn theori.[12] Wedi ystyried yn llawn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r dystiolaeth sydd ar gael, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno uchafswm amseroedd teithio i anifeiliaid byw. Gan gydnabod yr ystod o farn wahanol a'r dystiolaeth ar nodweddion penodol, rydym wedi adolygu a diwygio ein cynigion gwreiddiol. Byddwn yn trafod ymhellach, gan weithio'n agos gyda diwydiant ar y nodweddion ymarferol, gan gynnwys yr heriau y mae cymunedau gwledig ac anghysbell yn eu hwynebu, megis Ynysoedd yr Alban, gyda'r nod o gyflwyno uchafswm amseroedd teithio fel y'i nodir isod.

- Uchafswm amser teithio o 4 awr i ieir brwylio, heblaw am yr amser sy'n cael ei dreulio'n llwytho a dadlwytho. Drwy hepgor amser llwytho a dadlwytho, y nod yw gwaredu'r risg o faterion lles posibl yn deillio o lwytho a dadlwytho ar frys er mwyn bodloni'r gofynion amser teithio. Credwn fod hyn yn ddull cytbwys, sy'n ystyried pryderon y diwydiant ynghylch yr effaith ar deithiau presennol wrth fynd i'r afael â'r dystiolaeth wyddonol ar risgiau i les a chyfraddau marwolaeth ymysg ieir brwylio ar deithiau hirach na 4 awr.

- Uchafswm amser teithio o 24 awr i gywion sydd newydd gael eu dodwy. Nododd tystiolaeth mewn ymatebion gyfraddau goroesi uchel iawn i gywion y tu hwnt i'r uchafswm amser teithio arfaethedig o 21 awr. Mae'r llywodraeth yn gwerthfawrogi

[12] FAWC: Barn ar Les Anifeiliaid wrth Gludo

pwysigrwydd masnach fyd-eang y stoc bridio er mwyn hwyluso amrywiaeth genetig gwell a, lle bo modd sicrhau lles wrth gludo, caniateir teithiau allforio hirach na 24 awr i gywion sydd newydd gael eu dodwy os oes modd bodloni meini prawf ychwanegol. Hefyd, nododd tystiolaeth mewn ymatebion bod hyd y daith a'r amser rhwng dodwy a chyrraedd yn ffactorau risg allweddol o ran lles cywion sydd newydd gael eu dodwy. Awgryma'r dystiolaeth bod effeithiau andwyol ar dwf a datblygiad cywion os na fyddant yn cael porthiant a dŵr wrth i'r melynwy waethygu. Byddai'r meini prawf penodol o ran y posibilrwydd o ymestyn teithiau allforio'n cael eu pennu drwy ymgysylltiad pellach gyda'n rhanddeiliaid. O leiaf, rydym yn cynnig gofyniad o gadw log teithio a darparu geliau arbenigol sy'n cynnig cynhaliaeth.

- Uchafswm amser teithio o 18 awr i foch. Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael, ac yn cynnig caniatau eithriad i foch bridio os bydd meini prawf ychwanegol yn cael eu bodloni. Byddai'r meini prawf penodol yn cael eu pennu drwy ymgysylltiad pellach gyda rhanddeiliaid. Noda ymatebion i'r ymgynghoriad bod mesurau rheoli llym eisoes ar waith i sicrhau bod y moch gwerthfawr hyn yn cyrraedd mewn cyflwr da iawn, a bod eu lles yn cael ei amddiffyn. Mae'r llywodraeth yn falch o statws iechyd uchel y DU ac yn cydnabod pa mor bwysig yw dyrannu ein llinellau bridio gwerthfawr yn fyd-eang er mwyn gwella cynhyrchiad moch.

- Uchafswm amser teithio o 12 awr i foch sydd newydd eu diddyfnu, yn unol â thystiolaeth wyddonol a chan ystyried sylwadau gan y diwydiant, er mwyn galluogi moch i dderbyn y brechlynnau angenrheidiol wrth gael eu dadlwytho, er mwyn lleihau'r prosesau trin.

- Uchafswm amser teithio o 9 awr i loi hyd at 9 mis oed. Nid oedd rhai sefydliadau lles anifeiliaid ac aelodau'r cyhoedd yn credu y dylid caniatau teithiau o'r fath o gwbl. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn deall bod teithiau domestig gyda lloi'n angenrheidiol yn aml, ac wedi ystyried y dystiolaeth wyddonol, rydym yn cynnig cyflwyno uchafswm amser teithio o 9 awr er mwyn sicrhau bod lles y lloi yn cael ei amddiffyn. Rydym yn cydnabod bod rhai o ymatebwyr o'r diwydiant yn pryderu am y goblygiadau ariannol fydd yn deillio o'r mesurau hyn; fodd bynnag, rydym o'r farn fod hyn yn ddull cytbwys. Mewn ymateb i bryderon ynghylch effaith y cynigion ar ffermwyr mewn ardaloedd mwy anghysbell o'r DU, rydym yn cynnig eithriad posibl ar gyfer teithiau os yw meini prawf ychwanegol yn cael eu bodloni. Pennir y meini prawf penodol drwy'r gwaith pellach fydd yn mynd rhagddo gyda rhanddeiliaid.

- Uchafswm amser teithio o 12 awr i geffylau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno ar y cyfan gyda'r cynnig hwn o gael uchafswm amser teithio. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn ymwybodol o'r goblygiadau y gallai mesurau o'r fath eu golygu i'r diwydiant rasio ceffylau a chystadlu. Mae ceffylau tryryw yn teithio'n rheolaidd, yn aml yn rhyngwladol, er mwyn cystadlu. Noda ymatebion i'r ymgynghoriad a'r dystiolaeth sydd ar gael bod gan y rheiny sy'n cludo'r ceffylau gwerthfawr hyn fuddiant mewn amddiffyn lles yn ystod teithiau hir. Bydd y llywodraeth yn ystyried eithriadau i'r uchafswm amseroedd teithio i'r rhai sy'n cystadlu neu'n rasio, neu geffylau

tryryw at ddibenion bridio, os yw meini prawf ychwanegol yn cael eu bodloni. Bydd y meini prawf penodol yn cael eu pennu drwy'r gwaith pellach fydd yn mynd rhagddo gyda rhanddeiliaid.

Ar gyfer gwartheg, defaid a phob anifail arall, gwnaethom gynnig uchafswm amser teithio o 21 awr. Roedd llawer o ffermwyr o blaid y cynnig hwn, fodd bynnag roedden nhw, a'r rhai oedd yn gwrthwynebu, yn pryderu am deithiau o ardaloedd anghysbell o'r DU, a theithiau sy'n cynnwys marchnadoedd byw da, canolfannau casglu a llawer o godi a gollwng. Mae'r llywodraeth yn deall bod cyfleusterau o'r fath yn rhan hanfodol o symudiadau byw da domestig. Mae'n fater cymhleth gyda llawer o nodweddion ymarferol i'w hystyried, ac felly bwriadwn weithio gyda'r rhanddeiliaid i ymchwilio'n fanylach y mater o amseroedd teithio, a sut mae'r rhain yn berthnasol i farchnadoedd a chanolfannau casglu.

Ar gyfer rhywogaethau eraill, gwnaethom gynnig uchafsw amser teithio o 21 awr. Roedd y sectorau anifeiliaid ecsotig a dyfrol yn codi pwyntiau dilys ynghylch amrywiaeth y grwpiau hyn o rywogaethau. Rydym yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid i bennu uchafswm amser teithio priodol ar gyfer rhywogaethau eraill, gan gynnwys anifeiliaid ecsotig a dyfrol.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y lleiafswm cyfnod gorffwys cyn bod modd dechrau ar daith arall. Er bod y sefydliadau lles anifeiliaid yn bryderus bod y cyfnod amser 48 awr arfaethedig yn rhy fyr, roedd ymatebion gan y diwydiant yn codi pryderon difrifol o ran sut fyddai'r amser gorffwys gofynnol yn gweithio'n ymarferol. Felly, byddwn yn gweithio ymhellach gyda rhanddeiliaid i bennu cyfnod gorffwys priodol sy'n sicrhau lles anifeiliaid a swyddogaeth y farchnad. Nid ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cyfnod gorffwys o leiaf 7 diwrnod arfaethedig i wartheg.

## Amodau Thermol ac Awyriad

Mae'r rheoliadau cludo presennol yn diffinio teithiau byr fel rhai sydd dros 65 km a hyd at a chan gynnwys wyth awr o hyd. Diffinnir teithiau byr fel unrhyw daith sy'n fwy nag wyth awr o ran hyn. Ni wnaethom gynnig unrhyw newidiadau i'r diffiniadau teithiau presennol, ac felly ni fyddai'r cynigion polisi canlynol ar amodau thermol yn berthnasol i deithiau o dan 65 km, megis symudiadau rhwng ffermydd lleol.

Ar hyn o bryd, nid yw'r rheoliadau lles wrth gludo'n atal teithiau mewn tymereddau allanol eithafol. Mae'r rheoliadau presennol yn rhoi dyletswydd i sicrhau bod y cerbyd yn gallu cynnal tymheredd rhwng 5°C a 30°C gyda goddefiant o +/- 5°C. Gall y tymheredd allanol yn ystod taith fod yn sylweddol y tu hwnt i'r ystod hon, ond cyn belled ag y bo'r cerbyd wedi'i gymeradwyo fel un sy'n gallu cynnal y tymheredd gofynnol ar y cerbyd, byddai'n cydymffurfio â'r rheoliadau presennol. Rydym yn gwybod bod cerbydau nad ydynt yn gallu thermo-reoleiddio'n ei chael hi'n anodd aros o fewn yr ystod dymheredd mewn tymheredd eithafol, yn enwedig mewn tywydd poeth.

Rydym wedi ystyried yn ofalus yr holl ddadleuon a gyflwynwyd, yn erbyn ac o blaid y terfynau tymheredd ar gyfer teithiau ac wedi addasu'n safbwynt yn unol â hynny. Gan gadw mewn cof y manteision lles, rydym yn bwriadu cyflwyno cyfyngiad tymheredd allanol ar gyfer

dofednod, byw da a cheffylau. Bydd hyn yn golygu na fydd modd cludo oni bai bod y cerbyd yn gallu rheoleiddio’r tymheredd mewnol o fewn yr ystod hon drwy gydol y daith drwy ddefnyddio system thermo-reoleiddio. Cyn dod i gasgliad ar y nodweddion penodol, hoffem wneud rhagor o waith gyda’r sectorau diwydiant amrywiol i ystyried gweithrediad ymarferol y polisi hwn, gan gadw mewn cof y ffyrdd gwahanol y mae dofednod, byw da a cheffylau’n cael eu cludo, fel bod modd i ni sicrhau deilliannau lles da ar sail tystiolaeth.

Ar gyfer teithiau dofednod, rydym yn cynnig cyflwyno’r ystod dymheredd allanol o 5°C i 25ºC. Mae’r dystiolaeth sydd ar gael, a’r ymatebion i’r ymgynghoriad gan gynrychiolwyr milfeddygol, yn ei gwneud hi’n glir bod tymheredd eithafol yn cael effaith sylweddol ar farwoldeb ymysg dofednod, ac felly credwn fod hyn yn ddull cyfrannol a synhwyrol.

Rydym yn cydnabod bod cerbydau sy’n cael eu thermo-reoleiddio’n eithaf prin o ran defnydd yn y sector ar hyn o bryd. Fodd bynnag, i’r tymor hirach, mae’r llywodraeth yn glir y dylai’r diwydiant geisio gweithredu o fewn yr ystod dymheredd allanol y cytunwyd arni neu ddefnyddio cerbydau sy’n cael eu thermo-reoleiddio. Yn ystod ein gwaith pellach gyda rhanddeiliaid, byddwn yn cytuno ma achosion esgusodol all gael eu hystyried i’r tymor byr, a chan ddefnyddio’r dull tymor hirach.

Ar gyfer byw da a cheffylau, rydym yn cynnig gwahardd teithiau byr llai na 8 awr lle bo’r tymheredd allanol yn uwch na 30°C. Byddai teithiau hir dros 8 awr yn cael eu gwahardd os yw’r tymheredd allanol y tu allan i’r ystod 0 i 25°C. Yn y ddau achos, gallai’r teithiau ddigwydd y tu allan i’r ystodau hyn os yw’r cerbyd yn gallu rheoleiddio’r tymheredd mewnol o fewn yr ystod hon drwy gydol y daith, drwy ddefnyddio system thermo-reoleiddio. Roedd sefydliadau lles anifeiliaid a chynrychiolwyr o’r diwydiant byw da’n cydnabod y risgiau o straen gwres wrth gludo anifeiliaid mewn tywydd poeth iawn. Dyma pam rydym yn bwriadu gweithredu’r terfynau tymheredd allanol uwch er mwn diogelu lles anifeiliaid.

Roedd ymatebion i’r ymgynghoriad gan y diwydiant byw da a grwpiau ceffylau’n amlygu pryderon sylweddol gyda’r cyfyngiad tymheredd is arfaethedig. Nododd yr ymatebwyr y byddai cyfyngiad o’r fath yn arwain at darfu a cholledion economaidd sylweddol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Roedd yr ymatebwyr yn trafod y ffaith bod llawer o fyw da a cheffylau yn yr awyr agored drwy gydol y flwyddyn ac felly wedi arfer â thymheredd is, ac felly ni fyddai cludo anifeiliaid mewn tymheredd is na 5°C yn cael effaith andwyol ar les. Rydym wedi ystyried yn ofalus y dadleuon hyn ac o ganlyniad, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â’r cyfyngiad tymheredd is arfaethedig ar gyfer teithiau byr, a byddwn yn lleihau’r tymheredd isaf arfaethedig ar gyfer teithiau hir i 0°C. Mae systemau dŵr eisoes yn ofynnol i gerbydau sy’n cludo anifeiliaid ar deithiau hir dros 8 awr. Rydym yn cynnig gosod terfyn tymheredd allanol is ar gyfer cludo anifeiliaid yn ystod teithiau hir i leihau’r risg o systemau dŵr yn rhewi ac felly atal mynediad i anifeiliaid at ddŵr, y mae APHA yn nodi sy’n broblem ar gerbydau byw da mewn tymheredd dan y rhewbwynt.

Nid oedd llawer o ymatebwyr o’r diwydiant yn credu bod angen ystyried y tymheredd allanol, dim ond amodau mewnol y cerbydau. Fodd bynnag, mae’r llywodraeth yn deall nad yw cerbydau sy’n cael eu thermo-reoleiddio’n cael eu defnyddio’n helaeth ar gyfer cludo byw da a cheffylau, sy’n golygu mai’r tymheredd allanol yw’r mesur mwyaf priodol sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn amddiffyn anifeiliaid rhag dioddef effeithiau straen oeri neu wres wrth

gael eu cludo; rydym yn cynnig ymchwilio hyn ymhellach yn ein trafodaethau gyda'r sectorau perthnasol.

Gwnaeth ymatebwyr yn cynrychioli'r fasnach ymlusgiaid ac egsotig a rhywogaethau dyfrol godi pwyntiau dilys ar amodau cludo arbenigol yr anifeiliaid hyn. Bwriadwn ymgysylltu ymhellach gyda nhw er mwyn creu gofynion priodol ar amodau termol ar gyfer rhywogaethau eraill, gan gynnwys rhywogaethau egsotig a dyfrol.

## Lwfansau Gofod

Er nad oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynnig i ddefnyddio egwyddorion alometrig i gyfrifo lwfansau gofod, roedd cefnogaeth ledled y diwydiant a grwpiau lles i'r syniad. Fodd bynnag, roedd ychydig o bryder o ran sut fyddai'r egwyddorion yn gweithio'n ymarferol; heb wybodaeth bellach ar y fformiwla alometrig (h.y. y gwerth *k*), nid oedd ymatebwyr o'r diwydiant yn gallu pennu effaith y newidiadau ar eu busnes. Felly, mae'r llywodraeth yn cynnig gwneud gwaith pellach gydag ystod o randdeiliaid, i gasglu sail dystiolaeth well a deall yn well y goblygiadau ymarferol o ddefnyddio egwyddorion alometrig cyn bwrw ymlaen ag unrhyw gynigion pellach.

## Lwfansau Lle Uwch Ben

Mae'r llywodraeth wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r dystiolaeth sydd ar gael ac wedi symleiddio ein cynnig. Yn amodol ar waith pellach gyda'r diwydiant, rydym yn bwriadu cyflwyno lwfansau lle uwch ben newydd o 10cm uwch ben y pen i foch a 20cm uwch ben y pen i bob anifail arall. Byddai'r gofynion yn berthnasol i deithiau hir a byr ac yn cael eu mesur o'r pwynt uchaf ar ben yr anifail talaf wrth sefyll, yn unol ag argymhellion FAWC.[13]

Mae ymatebion i'r ymgynghoriad a'r dystiolaeth sydd ar gael yn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau digon o le uwch ben taldra sefyll i sicrhau awyriad digonol a chyfforddusrwydd i'r anifeiliaid. Mae mesur lle'r pen yn uwch nag uchder y pen yn hytrach na'r ysgwydd neu'r war, fel y'i nodwyd gan rai ymatebwyr, yn sicrhau awyriad digonol a chyfforddusrwydd, gan alluogi'r anifeiliaid i ymestyn. Nododd llawer o gynrychiolwyr o'r diwydiant moch nad oedd angen llawer o le uwch ben ar foch, ga neu bod nhw'n aml yn gorwedd wrth gael eu cludo. Rydym yn cydnabod bod hyn yn ymddygiad cyffredin wrth gludo; fodd bynnag ni fydd pob mochyn yn gorwedd drwy gydol y daith ac felly mae angen lle uwch ben digonol er mwyn sicrhau awyriad.

[13] FAWC: Barn ar Les Anifeiliaid wrth Gludo

## Cludo ar y Môr

Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a'n barn yw nad oes digon o dystiolaeth i wneud penderfyniadau penodol ar gludo anifeiliaid mewn Grym Gwynt Beaufort 6 neu uwch. Felly, nid ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynnig. Er bod y dystiolaeth yn dangos bod effaith straen yn ystod mordeithiau hir yn debyg i'r rhai sy'n cael eu profi wrth gludo ar ffyrdd, does dim digon o dystiolaeth ar yr amodau all eu lleddfu. Ar hyn o bryd, mae capteiniaid llongau'n ystyried sawl ffactor cyn penderfynu hwylio. Ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael yn ofalus a'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd yn ystod yr ymgynghoriad, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai gofyn i'r penderfyniad fod ar sail grym y gwynt heb dystiolaeth bellach yn ddull anghyfrannol o ran amddiffyn lles anifeiliaid, ac y gallai arwain at faterion lles ychwanegol os oes oedi o ran hwylio.

Felly, bydd capten y llong yn gyfrifol am benderfynu a ddylid caniatau i anifeiliaid byw deithio ar long Rholio Ymlaen, Rholio i Ffwrdd mewn tywydd eithafol. Byddwn yn rhannu canllawiau i weithredwyr llongau ar y gofynion lles sy'n rhaid eu cynnal mewn amodau tywydd eithafol.

## Eithriadau

Mae'r rhesymau dros gludo anifeiliaid byw'n amrywiol iawn, ac amodau cludo hefyd. Rydym yn deall bod rhai o'r cynigion oedd yn rhan o'r ymgynghoriad yn angenrheidiol ac yn briodol i rai mathau o deithiau, ond nid rhai eraill. Rydym wedi amlinellu uchod lle rydym yn cydnabod rhesymau cryf dros ganiatau eithriadau, yn ogystal â'n bwriad i weithio gyda rhanddeiliaid ar y meini prawf ychwanegol all fod angen eu bodloni mewn achosion o'r fath.

## Materion eraill

Cododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad sawl mater arall oedd yn bwysig iddyn nhw o ran gwella lles wrth gludo, ond oedd heb eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Roeddent fel a ganlyn:

- Goblygiadau o ran amser sy'n cael ei dreulio mewn marchnadoedd, sioeau a chanolfannau casglu
- Pwysigrwydd hyfforddiant rheolaidd a ffurfiol i gludwyr anifeiliaid byw
- Gorfodaeth well o ran y rheoliadau
- Canllawiau ar ffitrwydd anifail i deithio

Rydym yn bwriadu gwneud gwaith pellach ar bob un o'r rhain, ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i greu cynigion manylach.